# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 570 · **Rhagfyr 2025** · 70c


## EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

# Llwyddiant er gwaethaf y Storm



Lowri Wynne Williams (chwith) yn derbyn y Fedal Ryddiaith gan Siân Esmor ar ran pwyllgor yr eisteddfod (Llun: Stephen Rees)



Osian Wyn Owen, bardd y Gadair, gyda'r gadair hardd o waith Elfyn Roberts (Llun: Osian Owen)

Fel y gwyddoch, ni chafwyd cyfarfod nos Wener ein heisteddfod eleni, a hynny oherwydd y tywydd garw. Efo'r gwynt mor gryf a'r glaw mor drwm at ddiwedd y pnawn, a rhagolygon y byddai'n gwaethygu gyda'r nos, bu'n rhaid rhoi heibio'r cynlluniau. Yn anffodus, collodd nifer dda gyfle i fod ar y llwyfan, gan gynnwys plant Ysgol Llanllechid a oedd i berfformio'r Ddawns Flodau, a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen a oedd i berfformio Defod yr Orsedd.

Fodd bynnag, mae pwyllgor yr eisteddfod yn ddiolchgar i Ysgol Dyffryn Ogwen a Gŵyl Arall, Caernarfon am eu parodrwydd i drefnu achlysuron i anrhydeddu'r prif enillwyr llên.

Eleni roedd gan ein heisteddfod dlws newydd ar gyfer Adran Llên yr Ifanc, sef Tlws Llên Bl 10 ac 11 er cof am y Parch. John a Mrs Elina Owen, Wernos, Cilfodan. Yn garedig iawn, cyflwynodd eu plant, Mererid, Einir a Garmon, rodd ariannol i'r eisteddfod er cof amdanynt, a phenderfynodd y pwyllgor mai cael tlws coffa fyddai'n gweddu. Roedd y Parch. John a Mrs Elina Owen yn gefnogwyr ffyddlon i'r eisteddfod ac yn aelodau o'r Is-bwyllgor Llên am flynyddoedd lawer. Roedd gan y ddau gysylltiad ag Ysgol Dyffryn Ogwen hefyd, efo Mrs Elina Owen yn athrawes a'r Parch. John Owen yn aelod o'r Corff Llywodraethol. Lluniwyd y tlws gan Alun Davies ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iddo am ei gyfraniad.



Lois Ryder, enillydd Medal yr Ifanc




Siwan Griffith, enillydd Tlws Llên Bl 10 ac 11

Yn ffodus, aeth y storm heibio a chafwyd cyfarfod dydd Sadwrn arbennig o lwyddiannus, efo neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen dan ei sang a safon y cystadlu'n uchel.

Mwy am yr eisteddfod y tu mewn.

### Y Nadolig

O am hedd wedi'r weddi - i gynnal
Y gân eto 'leni;
Nodau llawen y Geni
Rydd o'u dawn i'th fawredd Di.

Dilwyn Owen

### Pris Llais Ogwan yn codi i £1

Yn anffodus, mae Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan wedi gorfod penderfynu codi pris y papur i £1 ym mis Ionawr 2026 oherwydd pryder dros cynaladwyedd y papur i'r dyfodol. Dyma'r ail dro i ni orfod cynyddu pris y papur ers Ionawr 2010. Mae'r cynnydd hwn yn angenrheidiol oherwydd y cynnydd sylweddol mewn costau cysodi ac argraffu'r papur mewn lliw llawn a'r ffaith bod y gwerthiant bellach wedi gostwng i lai na 1000 pob mis. Gobeithio eich bod chi, ein darllenwyr ffyddlon, yn teimlo bod hyn yn godiad rhesymol er mwyn diogelu dyfodol y papur, a sicrhau bod y Llais yn parhau'n fyw yn y fro.

# Llais Ogwan

## Rhif 570
## Rhagfyr 2025


**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts



**Swyddogion**
CADEIRYDD
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


***Newyddion Ionawr i'w dderbyn erbyn 28 Rhagfyr. Dyddiad cyhoeddi 15 Ionawr.***

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Dewi A. Morgan.**

Y golygydd ym mis **Ionawr** fydd
**Rhys Llwyd,** Tonteg, 13 Talycae, Tregarth,
Bangor, Gwynedd, LL57 4AE.
01248 601606. E-bost : rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sul, 28 Rhagfyr** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 15 Ionawr** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Rhagfyr**
£30 Orina Pritchard, Rhos y Nant, Bethesda.
£20 (103) Gwen Ellis, Talybont.
£10 (101) Heleln W. Evans, Erw Las, Bethesda.
£5 (178) Ann Jones, Bron Arfon, Rachub.

**Gwobrau Blynyddol**
£50 (85) Fflur Roberts, Garneddwen, Bethesda.
£40 (174) Jo. M. Oliver, Bethesda.
£30 (94) Sharon Hughes, Cae Athro.

## Dyddiadur y Dyffryn

**Rhagfyr**
21 Naw Llith a Charol Traddodiadol. Eglwys St. Tegai, Llandygai am 5.00.
21 The Furrow Collective. Neuadd Ogwen.
24 Noswyl Nadolig. Eglwys St. Tegai, Llandygai am 11.00yh.
27 Gig Nadolig Neuadd Ogwen, Tri Hŵr Doeth, Pys Melyn, Pasta Hull

**Ionawr**
07 Y Gymdeithas. Sgwrs gan Andre Lomozik. Festri Jerusalem am 7.00
10 Neuadd Ogwen. Un Pnawn Tywyll.
12 Cymdeithas Hanes D. Ogwen. Dr. David Jenkins. Festri Jerusalem am 7.00
13 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45
15 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
27 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45
29 Neuadd Ogwen. VRi ac Angharad Jenkins.

## Rhoddion i'r Llais

£25 Alan Davies, Porthaethwy, er cof am Bronwen, a fu farw yn Rhagfyr 2017.
£60 Bryn Roberts, Caerdydd er cof am Caeron a Nancy Roberts a Jois Snelson.
£20 Er cof am Mr. William John Evans (helpar Siôn Corn) a Glenys Evans, Ceunant, oddi wrth y teulu xxx.
£15 Mrs Ann Huws, Y Fali
£105 Mrs Susan Jeffries, Caerdydd - er cof am Katie a Ray Jeffries
£10 Mr Gwynfryn Davies, Caernarfon
£20 Arthur a Nerys Rowlands - cofion at bawb yn Nyffryn Ogwen
£20 Er cof annwyl am fy rhieni, John (Jack) a Nesta Griffith, gan John Ffracon Griffith, Abergele
£20 Eirwen a Dilwyn Owen, Erw Las, Bethesda.
£20 Glenys a Dick Rowlands, Erw Las, Bethesda, a'r teulu – er cof am Dylan.
£20 Er cof annwyl am Gwilym Bullock a fuasai'n 90 oed ar 22 Rhagfyr, oddi wrth Elna, Sharon, Lynne a'r teulu.

***Diolch yn fawr.***

***Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr Llais Ogwen***


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Babis newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Dana a Gerallt Stryd Hir ar enedigaeth eu merch fach, Leusa Heulwen. Mae Hari, Huw, Gwawr, Dion a Natalie wedi gwirioni efo'u chwaer fach. Mae brawd Dana, Gareth a'i bartner, Beth, wedi dod yn rhieni am yr ail waith hefyd. Croeso i'r byd Efa Lois.

Mae'r teulu i gyd wedi mopio ac yn arbennig taid a nain – Dafydd ac Ellen Edwards. Mae am fod yn Ddolig prysur!

**Dathlu penblwydd arbennig**
Penblwydd hapus arbennig i Megan Hughes, Ciltwllan a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Croeso i'r clwb 50 Megan!

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Cai O'Marah, Gwernydd ar ennill Cymhwyster Uwch Ymarferydd Iechyd Meddwl. Mae'r teulu yn falch iawn ohonot Cai.

**Cydymdeimlo**
'Rydym yn gyrru ein cydymdeimlad dwysaf at deulu Non a Rex Humphreys Jones, Rallt Isaf, gan i Rex golli ei dad, Glyn, yn ddiweddar. Bydd colled fawr i'r teulu i gyd a gyrrwn ein cydymdeimlad atoch. Bydd angladd a dathliad i goffau bywyd Glyn yn cael ei gynnal yn Amlosgfa Bangor ar y 15fed o Ragfyr.

**Seren y Sgrin!**
Os oeddech chi'n gwylio rhaglen Dim Cwsg i Quinnell yn ddiweddar, mae'n bosib eich bod wedi gweld wyneb cyfarwydd o Gerlan arno. Mae Deion yn byw yn Stryd Fer ac yn gweithio yn Nistyllfa Rhaeadr Aber ers amser. Treuliodd Scott y diwrnod yn y gwaith efo Deion ac 'roedd yn edrych fel eu bod nhw wedi cael dipyn o hwyl. Siŵr bod Lel a Tomi yn falch iawn ohona chdi.

**Llwyddiant yn Steddfod Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu'n Steddfod Dyffryn Ogwen eleni. Daeth sawl gwobr yn ôl i Gerlan ond daeth un arbennig iawn i Gwernydd wrth i Mali Non ennill gwobr arbennig am lefaru. Nid yn unig gafodd hi gyntaf am lefaru ond fe enillodd wobr arbennig am y perfformiad mwyaf addawol a hynny ar ddiwrnod ei phen-blwydd. 'Roedd hynna'n fwy na digon o reswm i ddathlu.

**Llogi'r neuadd**
Cofiwch fod Y Caban ar gael i'w logi ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd, clybiau neu barti penblwydd am gost isel iawn (£10-£20)

## Caban Gerlan





**Caffi Trwsio Gerlan**
Cynhaliwyd caffi trwsio llwyddiannus iawn yn y Caban dydd Sul y 30ain o Dachwedd. 'Roedd 'na naws Nadoligaidd yna wrth i hen Sion Corn cael ei drwsio. Mae'r Sion Corn yma yn rhan arbennig o deulu Anna Jones ac 'roedd wedi gwirioni ei fod yn canu a symud eto ar ôl blynyddoedd o fod yn segur.

Ymhlith y pethau eraill gafodd eu trwsio oedd tennyn ci oedd wedi ei gnoi, peiriant torri gwair a chôt law.

Fydd na ddim Caffi Trwsio yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr ond byddwn yn ôl eto ar ddydd Sul, Ionawr 25ain rhwng 11 ac 1 fel arfer.

Yn dilyn llwyddiant ein gweithdy gwnïo ym mis Hydref, 'rydym am gynnal gweithdy tebyg eto rhyw dro yng nghanol Ionawr – cofiwch gadw golwg allan am fwy o wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Grŵp Gwnïo Newydd

'Roedd pawb ddaeth i'r gweithdy gwnïo ym mis Hydref wedi mwynhau'n arw. Daeth sawl un â pheiriant gwnïo hefo nhw nad oedden nhw wedi ei ddefnyddio ers amser ac 'roedd Ruth, Kêt a Robyn wrth law i roi cyngor a syniadau. Llwyddodd sawl un i greu bag bach i fynd adref efo nhw ac 'roedd 'na awyrgylch braf wrth i bawb sgwrsio, cefnogi a dod i nabod ei gilydd. Dyma lun o pawb wrthi'n brysur ar y diwrnod.

'Roedd pawb yn awyddus i gynnal digwyddiad tebyg yn rheolaidd ac felly mae grŵp bach wedi penderfynu cynnal grŵp gwnïo misol yn y neuadd i bobl sydd yn brofiadol ac yn newydd i wnïo. Cynhaliwyd y grŵp cyntaf nos Lun y 24ain o Dachwedd. Does 'na ddim dyddiad wedi ei bennu i'r un nesaf ond byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth ar y gwefannau cymdeithasol yn fuan.

Mae sôn hefyd am gychwyn grŵp gweu yn y neuadd yn y flwyddyn newydd.

Os oes gennych ddiddordeb yn ymuno mewn un o'r grwpiau yma ac yn dymuno cael mwy o fanylion, mae croeso i chi gysylltu gyda Caren am fwy o wybodaeth ar 07789916166.



**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

## Cyfarchion Nadolig

**Ni fydd Alan Davies, Porthaethwy, yn anfon cardiau y Nadolig hwn, ond mae'n anfon ei ddymuniadau gorau at bawb dros yr Ŵyl.**

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (9)

## Gan **Howard Huws**

Bu imi sôn am Fuarth Bwgan yn ymyl Llyn Ogwen yn y rhifyn diwethaf, ond bu – neu y mae – ddigon o fwganod eraill yn y dyffryn hwn. Tua'r flwyddyn 1758 cythryblid tŷ yma gan fwgan anweledig oedd yn taflu cerrig i mewn yno ac o gwmpas, gan frifo pobl. 'Efe a darawai ddyn ar ei wegil â charreg, pan y byddai yn sefyll â'i gefn ar bared, nes y disgynnai ar ei wyneb!' meddai'r hen gasglwr llên gwerin Myrddin Fardd (John Jones, Chwilog). 'Poltergeist', sef 'bwgan taflu' ydi'r enw Almaeneg ar y math yna o fwgan. Roedd rhai o'r cerrig hyn hyd at saith bwys ar hugain [12.25 cilogram], o'r afon gerllaw. Galwyd offeiriaid o Fangor yno, i weddïo a chael gwared arno, ond cawsant hwythau eu pledu, a bu'n rhaid iddynt adael. Symudodd y teulu oddi yno, yn y diwedd, ac am a wn i bu i'r bwgan laru ac ymadael hefyd.

Pa dŷ oedd hwn? Tyddyn Dicwm ym mhlwyf Llandygái, i lawr wrth Bont Pandy, medd un adroddiad: ac yn sicr mae afon yno: ond Cae Llwyn Grydd ym mhlwyf Llanllechid medd adroddiad arall, er nad oes fawr o afon yno. Eto, mae taflen baled a argraffwyd yn Nhrefriw ym 1784 yn adrodd hanes gŵr a gwraig o Lanllechid a frawychwyd gan fwgan ar ffurf mochyn, a ruthrai i'r tŷ gan chwalu popeth o'i flaen a dymchwel y dodrefn. Tybed ai'r un digwyddiad oedd hwn?

Yr oedd y goruwchnaturiol yn ei amlygu ei hun mewn ffyrdd llai trafferthus, weithiau. Ym 1818 clywyd sŵn canu yn yr awyr, canu eglur a grymus fel cynulleidfa fawr o bobl yn gorfoleddu, mewn 'gwahanol leisiau' gan John Pierce a'i wraig uwchlaw Tyddyn Isaf, Llanllechid, ac yng Ngharneddi ac Abercaseg. Yr oedd yn dechrau'n ddistaw, yna fel petai'n agosáu ac yn grymuso. Yn ôl tyst arall, deuai'r canu o Gapel Carneddi. Toc wedyn bu dau bregethwr o'r De yno, a bu gorfoleddu mawr ymysg y gynulleidfa: yna clywyd y canu drachefn, yn yr awyr eto. Codwyd Richard Thomas, Tŷ Gwyrdd, o'i wely gan ei rym, ac yn syfrdan cerddodd gryn bellter i gyfeiriad y chwarel yn ei grys nos.

Ym 1827 adroddodd cylchgrawn Y Gwyliedydd am seiniau cyrn a phibau yn yr awyr yma: nid geiriau, ond sain beraidd, isel, a rhai yn ei glywed, ac eraill gyda nhw ddim. Tybiai rhai ei fod yn arwydd o lwyddiant bydol i ddod, ac eraill, llwyddiant yr Efengyl. Fodd bynnag, pan aeth gŵr o Fangor i aros efo cyfaill yn Nant Ffrancon, clywodd yntau'r sŵn, a'i farn o oedd mai'r awel yn chwythu o dan Raeadr y Benglog ac yn atseinio at y meini oedd achos y peth: ac ni fu sôn am y canu wedyn.

Yna tua'r flwyddyn 1824 yr oedd Benjamin Moses, Bontuchaf, yn cerdded gyda'r nos, gan boeni'n arw am ei gyflwr ysbrydol, a'i amheuon ynghylch a oes Duw ai peidio. Yna: 'cyn cyrraedd at lidiart y wern, pan sefais yn y fan ac y dywedais wrthyf fy hun, "os oes Duw yn bod, caf weled rhyw ddrychiolaeth oddiyma i lidiart y wern". Yr hwn oedd ychydig rydau [yr oedd rhwd tua 5 medr] oddi wrthyf, a chyn imi gyrraedd y llidiart, a'r awyr yn glir, a'r lleuad yn gron, a'r sêr yn disgleirio. Gwelwn ryw beth mawr ar y ffordd, o flaen fy wyneb yn cymeryd ei naid, ac yn disgyn mewn llyn yn yr afon, oddeutu tri rhwd o'r ffordd wrthym.'



Lle arall yn Rachub yr oedd yno fwgan oedd Bryn Gwenith. Byddai lluniau yn disgyn oddi ar y waliau a sŵn fel rhywbeth yn cerdded i fyny'r grisiau. Deffrowyd y preswyliwr droeon ganol nos gan hyn, ond pan âi yno, a chynnau golau, 'doedd yno ddim.

Un tro, am tua hanner nos Sadwrn olau leuad, yr oedd gŵr Bryn Gwenith yn cerdded o Aber i Rachub. Ar y stryd daeth hen wraig i'w gyfarfod, ac wrth iddo fynd heibio iddi, dyma fo'n dweud "Nos dawch". Atebodd honno ddim, a dyma fo'n troi i edrych arni: ond roedd hi wedi diflannu, 'Doedd dim golwg o neb.

Os oes gan unrhyw un o'n darllenwyr sylwadau neu straeon I'w hadrodd, byddai Howard yn falch iawn o glywed gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07748 495537.


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



**18 Carreg Felin**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5YB**

**☎ 01248 713 369**
**neu 07813 455653**

**Mark Davies**
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

**mark@mdcaravans.cymru**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY | Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**

**cyrsiaubyr@bangor.ac.uk**
**01248 382 875**
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp


***Rydym yn ddiolchgar i'n darllenwyr am eich cefnogaeth barhaol***

## Glasinfryn a Chaerhun

**Cylch Glasinfryn**
Daeth nifer dda o'r aelodau ac ymwelwyr i gyfarfod y Cylch ar 12 Tachwedd yn y Ganolfan. Croesawyd Mr Cynrig Hughes, Rallt, Pentir gan y Cadeirydd, Mair Griffiths. Mae Cynrig yn hen gyfaill i'r Cylch, wedi rhoi amryw o sgyrsiau hanes lleol i'r aelodau dros y blynyddoedd, sydd bob amser yn cael eu mwynhau. Y tro hwn sgwrs gawsom am gysylltiadau lleol â Streic Fawr Chwarel y Penrhyn, 1900-1903. Mae llawer wedi ei ysgrifennu am y streic ym Methesda ond 'roedd Cynrig wedi bod yn awyddus i ymchwilio effaith y streic yn y pentrefi cyfagos fel, Rhiwlas, Mynydd Llandegai, Tregarth, Pentir a Glasinfryn, Waen Wen a Chaerhun. 'Roedd wedi darganfod hanes ffrae yn Four Alls ym Mhant Caerhun a oedd yn dŷ tafarn ar y pryd. Parhaodd y ffrae a'r cwffio ar y ffordd am Rhiwlas, erbyn cyrraedd Pentir daeth y pedwar plismon oedd yn Rhiwlas i'r sgwâr i arestio'r arweinydd ac aethpwyd ac o i'r carchar! Yr oedd nifer o blismyn yn y pentrefi er mwyn cadw trefn rhwng y bradwyr a'r streicwyr, gyda dau yng Nglasinfryn! 'Roedd y sgwrs yn agoriad llygaid am achosion yn arwain i fyny at y Streic Fawr ac yn canolbwyntio ar y caledi oedd yn yr ardal.

Rhoddwyd y diolchiadau gan Margaret Owen. Beryl ac Ann ddarparodd y te a chacennau hyfryd!

Gwnaed trefniadau ar gyfer y cinio Nadolig ar 10 Rhagfyr ym Mhant Du, Penygroes. Ar 14 Ionawr byddwn yn croesawu Mr Joe Hughes, un arall o gyfeillion y Cylch, i sgwrsio am "Deulu Abraham Wood", Mae hwn yn argoeli fod yn sgwrs ddifyr, mae croeso mawr i chwi ymuno yn y Ganolfan am 2yp.

**Anrhydedd**
Llongyfarchiadau mawr i Dr Marcel Clusa Ferrand, 2 Sryd Fawr, Glasinfryn ar ennill Aelod



Staff y Flwyddyn ym Mhrif Ysgol Bangor lle mae Marcel yn Ymgynghorydd Myfyrwyr. Cyflwynwyd y wobr iddo mewn seremoni gwobrwyo yn Llundain ar 19 Tachwedd. Dywedodd y brifysgol fod "Marcel yn cynnig cefnogaeth ddiamheuol i'r myfyrwyr rhyngwladol sy'n gwneud Bangor yn gartref iddynt". Mae Marcel i'w longyfarch hefyd am ei lwyddiant yn meistroli'r Gymraeg, a dod yn siaradwr Cymraeg newydd.



**Llongyfarchiadau**
Mae Isaac Briscoe, 2 Bryn Pwll, Waen Wen, sydd yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan wedi bod yn hynod o lwyddiannus mewn Gala nofio! 'Roedd yn cystadlu yng Ngala John Sharp drefnwyd gan Glwb Nofio Caernarfon ym Mhwll Nofio Llandudno ar 30 Tachwedd. Cafodd Fedal Aur - 50m dull pili pala, Arian - 50m dull cefn, 100m dull rhydd, 200m dull cefn, 50m nofio broga, Efydd - 200m dull rhydd. Llongyfarchiadau Isaac am ganlyniadau arbennig!

**Bingo Bach**
Cynhaliwyd y Bingo Nadolig gyda pharti bach i ddilyn ar 28 Tachwedd yn y Ganolfan. Er ei fod yn noson oer a gwlyb tu allan 'roedd yr hwyl tu fewn yn wresog iawn! Cafwyd nifer o wobrau tymhorol wedi eu cyfrannu yn ddiolchgar iawn gan amryw yn y Bingo ac o'r fro, gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn. Codwyd £262 ar y noson tuag elusen Gafael Llaw, elusen a sefydlwyd yn 2013 i godi arian at blant sydd yn dioddef o gancr yng Ngwynedd a Môn. Mae'r arian a godwyd yn mynd at Ward Dewi, Ysbyty Gwynedd, Alder Hey, Lerpwl a Clic Sargant. Dim dyma'r swm terfynol gan fod gwerthiant hosanau Nadolig i'w ychwanegu ato. Cawn ysbaid bach dros y Nadolig 'rwan nes i ddiwedd Chwefror.


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

# YSGOL DYFFRYN OGWEN



## 'UKMT Senior Mathematical Challenge'

Llongyfarchiadau enfawr i'n disgyblion a gymerodd rhan yn yr 'UKMT Senior Mathematical Challenge' eleni. Cystadleuaeth ar draws y DU sy'n profi meddwl rhesymegol, datrys problemau a sgiliau mathemategol. Llongyfarchiadau arbennig i Sion a Lois ym mlwyddyn 12 ac i Twm a Daniel ym mlwyddyn 13 am ennill gwobr Efydd. Da iawn i Byron a Jac ym mlwyddyn 13 am ennill gwobr Arian, gyda Jac hefyd yn derbyn y wobr am y marciau gorau yn yr ysgol. Camp arbennig.



## Ymweliad Awdures

Diolch o galon i'r awdures Manon Steffan Ross am ddod i Neuadd Ogwen i gynnal gweithdy a thrafod ei nofel 'Llechi'. Roedd y sesiwn yn ysbrydoledig ac yn ymgysylltiol iawn – gofynnodd y disgyblion gwestiynau aeddfed a trafodwyd yn fanwl a phwrpasol. Roedd yn bleser cael blwyddyn 10 Ysgol Bodedern yn ymuno â ni hefyd. Diolch i Ms Catrin Heledd am gynllunio profiad dysgu arbennig ac i Manon am ei hamser, ei doethineb a'i charedigrwydd.

**Noson Agored**

Cawsom noson fendigedig ar gyfer ein Noson Agored. Diolch enfawr i'n disgyblion, staff, rhieni a staff y gegin am eu gwaith caled a'u cefnogaeth, fe wnaethoch chi'r noson yn llwyddiant llwyr. Rydym ni mor falch o'n cymuned ysgol wych ac roedd yn bleser croesawu disgyblion blwyddyn 5 ar gyfer eu diwrnod blasu.



**Adran Addysg Gorfforol**

Gemau pêl-rwyd egnïol iawn i ddau o dimau blwyddyn 7 ac 8. Chwaraewyd pêl-rwyd hollol wyth gan y merched i ffwrdd yn erbyn Ysgol Bodedern. Saethu arbennig ac amddiffyn tyn!

Sêr y chwaraewyr a sêr y dyfarnwraig i'r tîm melyn oedd Seren Roberts a Mabli Sturrs.

Sêr y chwaraewyr a sêr y dyfarnwraig i'r tîm glas oedd Chrissie Rosser a Cadi Jones.

Tîm melyn wedi ennill 13 – 8 a'r tîm glas yn ennill 7 – 3, gwych!



**Plant Mewn Angen**

Diolch yn fawr iawn i bawb am gyfrannu ac ymuno yn yr hwyl diwrnod Plant Mewn Angen. Casglwyd swm anhygoel o dros £500. Trefnwyd gemau pêl-rwyd staff yn erbyn chweched dosbarth, cystadlaethau gwisg ffansi, raffl hampr siocled a gwerthu donuts a siocled poeth yn ystod amser egwyl. Diolch i Efan Electro am wneud set mor wych doedd neb eisiau mynd yn nôl i'w gwersi!

Bu disgyblion 7C ar ymweliad â Pudsey yn @bbcradiocymru, roedd y criw wedi mwynhau yn arw.



**Cystadleuaeth PobUrdd**

Llongyfarchiadau i Ioan Tetlow a Robin Owen am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth PobUrdd yr ysgol. Aeth Robin a Ioan ymlaen i rownd Eryri yng Ngholeg Menai gyda Ioan yn dod yn drydydd gyda phwdin Efa a Robin yn coginio crymbl gellyg lleol. Da iawn chi 'chefs' y dyfodol!




**Fa'ma**

Cafwyd noson hyfryd yn Neuadd Ogwen yn gwylio perfformiadau o fonologau disgyblion blwyddyn 10 yn seiliedig ar themâu Fa'ma. Roedd ysgrifennu crefftus a chreadigol ar ei orau yn y prosiect hwn a gynhaliwyd gyda Frân Wen ac yr ymarferydd creadigol wych – Buddug Roberts. Rydym yn falch iawn o bob un sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect, da iawn chi.

### Rhyd Ddu

Bu disgyblion blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu am ddau ddiwrnod o antur ddechrau tymor yr Hydref. Dringwyd yr Aran mewn tywydd bendigedig, am dro i Feddgelert ar hyd Lôn Gwyrfai gan orffen gyda hufen iâ haeddiannol iawn.



Diolch enfawr i'n disgyblion am eu hymddygiad rhagorol, ac i ddisgyblion blwyddyn 12 am eu gwaith bydis drwy ofalu, coginio a diddanu yn ddi-baid. Diolch i'r staff a roddodd o'u hamser i sicrhau bod ein disgyblion yn parhau i gael profiadau gwych ac yn arbennig i Mrs Emma Green, a fu'n dringo'r Aran am dri diwrnod yn olynol. Yn ychwanegol, diolch i'n harweinwyr mynydd allanol profiadol, Dewi Emlyn Roberts a Sonia Williams.



**Gyrfa Cymru – Academi Gofal Gwynedd**

Diolch yn fawr i Gyrfa Cymru a Miss Catrin Jones am drefnu prynhawn gyrfaoedd iechyd a gofal i ddysgwyr blynyddoedd 11 – 13. Diolch i'r holl asiantaethau a chwmnïau am ddod draw i rannu gwybodaeth ac ateb cwestiynau ein disgyblion.

## Gweithdy Cymunedol gwneud Arwyddion Protest ar gyfer Y Rali "Nid Yw Bethesda Ar Werth" – Hydref 25




Cawsom llwyddiant mawr a lot o hwyl ar y 25ain o mis Hydref yn cynnal y gweithdy cymunedol. Diolch yn fawr iawn i Dilwyn Llwyd am adael i ni defnyddio Neuadd Ogwen (ac i'n trystio ni i beidio cael paent ymhob man!) ac i Pamela Green am fenthyg i ni rhai o'r gorchuddion llawr. Diolch hefyd i siop beics Evolution yn Bangor am rhoi llwyth o chardfwrdd stiff mawr i ni ac i Aled Cottle a Jason oedd yn gweithio yn galed i dorri' bocsus beics trwchus i lawr i ddarnau a ellir ei defnyddio ar gyfer arwyddion.

Diolch i Caren Brown ac Aled am godi yn fore i helpu osod pethau i fyny cyn i'r gweithdy ddechrau. Diolch hefyd i Aled Cottle and gwneud llwyth o stencils ardderchog ac i bawb a ddaeth i'r gweithdy a chyfrannu at y nifer mawr o arwyddion a wnaethpwyd a helpu clirio fyny wedyn. Wnaethom ni weithio yn galed trwy ganu at ganeuon Maffia Mr Huws, Bwncath ac albwm newydd Gruff Rhys (nawn ni ddim deud dim byd am y tri person wnaeth adael llythyren (neu ddau) allan o rhai o'r geiriau ar yr arwyddion – efallai oherwydd roedden nhw yn canu gormod!)

Cafodd yr arwyddion eu sychu a'u cadw yn Ystafell Gwenllian yn Neuadd Ogwen dros nos ac wedyn eu cludo i Plas Ffrancon ar Tachwedd y 1 af ar gyfer y rali.

Tegwen Northam wnaeth drefnu a thalu am y deunydd a gafodd ei defnyddio yn y gweithdy, er cof am y ddiweddar, ei thad ai mam, Mr a Mrs Northam. Fysa nhw wedi bod wrth ei boddau hefo'r digwyddiad!

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

SPAR
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr

**Dathlu 90 mlynedd o ddarlledu gan y BBC ym Mangor, Pontio Tachwedd 15.**

Yng nghanol Mis Tachwedd cymerodd y côr ran mewn noson o adloniant yn theatr Pontio, pan oedd y BBC yn dathlu 90 mlynedd o ddarlledu o Fangor. Y cyn brif weinidog o Lanystumdwy, David Lloyd George, oedd y cyntaf i ddarlledu o Fangor ac yn ei araith dywedodd y 'dewin' o wleidydd, y geiriau proffwydol hyn,

"Rydym, mewn anrhydedd, yn rhwymedig i wneud ein gorau i ymuno ac amddiffyn unrhyw aelod arall o'r gynghrair."

Geiriau proffwydol oherwydd pan ymosododd Hitler ar wlad Pwyl yn 1939 hwnnw oedd y sbardun i gychwyn yr ail ryfel byd. Canlyniad cychwyn y rhyfel hwnnw a'r bomio a fu ar Lundain, oedd penderfynu i symud holl adran adloniant y gorfforaeth o Lundain i Fangor a daeth pobl fel Tommy Handley, Sandy McPherson ac Arthur Askey i ddarlledu eu sioeau o Neuadd y Penrhyn.

Wedi'r rhyfel dechreuodd Bob Roberts, Tai'r Felin a Thriawd y Coleg ac eraill ddarlledu oddi yno ac o 1977 ymlaen daeth Hywel Gwynfryn, Dei Thomas a Dewi Llwyd yn enwau cyfarwydd i wrandawyr Radio Cymru.



Dei Thomas, y darlledwr Cymraeg adnabyddus o Nant Peris oedd un o'r darlledwyr cyntaf i gyfrannu i raglenni Radio Cymru yn ôl yn 1977.

Yn y noson yn Theatr Pontio cafwyd llu o sêr i gyfrannu atgofion a chaneuon neu sgetsus yn fyw ac ar dâp i ddathlu'r achlysur. Yn eu plith gwelwyd neu fe glywyd Tudur Owen, Ffion Dafis, Gerallt Pennant, John ac Alun, Dylan Jones, Bryn Fôn ac eraill yn perfformio. Clywyd caneuon Triawd y Coleg a darnau eraill a dyna lle bu cyfraniad Côr y Penrhyn yn allweddol, gan iddyn nhw ganu rhai o ganeuon enwocaf y Triawd sef 'Hen Feic Penny Farthing fy Nhaid' a hefyd 'Titw Tomos Las', un o ganeuon Hogia'r Wyddfa.

## Rhaglen y Côr yn llawn

**Elusennau yn elwa ar waith y côr**

Fel nifer o gorau eraill mae Côr Penrhyn yn rhoi oriau o wasanaeth i godi arian i achosion da yn lleol yn ogystal a thu hwnt i ffiniau Dyffryn Ogwen.

**Hosbis Dewi Sant**

Ar nos Wener y 5ed o Ragfyr roedd y côr yn canu yn y Gadeirlan ym Mangor i helpu Hosbis Dewi Sant, sydd â changhennau yn Llandudno ac yng Nghaergybi. Mae'r hosbis yn brwydro am ei bodolaeth ar hyn o bryd a bydd pob ceiniog o'r arian a godwyd yn mynd i geisio sicrhau bod y gwasanaeth amhrisiadwy yma, yn dal i fod ar gael i drigolion Gwynedd a Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Gwasanaeth Nadolig Jerusalem**

I derfynu'r flwyddyn daeth pobl Dyffryn Ogwen ynghyd i gymryd rhan yng ngwasanaeth Nadolig Capel Jerusalem. Mae hwn yn wasanaeth blynyddol a diolch i Mrs. Menai Williams ac aelodau eraill o'r eglwys am ysgwyddo'r baich o drefnu'r gwasanaeth ers blynyddoedd. Mae Côr y Penrhyn yn falch o gefnogi'r gwasanaeth hwn gan mai braf yw cael ymuno â phobl y dyffryn mewn carol a chân Nadoligaidd.



Cyngerdd Elusen Stepping Stones yn Eaton, Caer

**Aled Williams B1 yn trafod Cyngerdd Elusen Stepping Stones yn Eaton, Caer**

Cafwyd tagfeydd garw ar yr A55 ger Helygain ar y daith yno felly ni chafwyd ymarfer cyn y cyngerdd ond er hynny cafwyd datganiad hyfryd gan y côr. Roedd pryder na fyddai arweinydd na phiano'r côr ar gael gan fod peiriant satnav y cerbyd cludiant wedi ei yrru i fynedfa breifat yr ystad a oedd 6 milltir i ffwrdd!

Adeilad ysblennydd oedd y capel yn Eaton Hall gyda nenfwd bwaog uchel ac organ bib ar un ochr ond ychydig ryfeddol o le i'r gynulleifa. Rhaid oedd i'r Cor sefyll ger yr allor, ond ni offrymwyd neb ar y noson. Roedd oddeutu cant o bobl yno yn gwrando ar y noson.

Yr unawdydd ar y noson oedd Rhys Meirion, a swynodd pawb gyda'i ddatganiad a hynny yn fuan ar ôl iddo ddychwelyd o'r Wladfa ym Mhatagonia. Ross Craigmile un o gyfeilyddion y côr ac aelod o Adran Bas 2 oedd yn cyfeilio iddo gan beri i'r clafinofa swnio fel Bechstein fawr grand.

Yn dilyn y cyngerdd, cafwyd sgwrs a diferyn gyda'r gynulleidfa mewn neuadd hir gyda nenfwd a distiau coed praff a chyfeilyddes yn swyno gyda Sonatas Beethoven. Roedd yno hefyd drugareddau eclectig yn cynnwys cloc tŵr gyda phob wyneb yn dangos amseroedd gwahanol ac anghywir. Yno, clywyd canmoliaeth fawr i'r noson. Roedd rhai wedi gwirioni gyda 'Seal Lullaby' a 'Mor fawr wyt ti' yn benodol a nodwyd fod y Côr yn gallu creu awyrgylch arbennig a thrawiadol iawn yn y neuadd hynafol a'i acwsteg hynod.

**Dymuna aelodau, teuluoedd a chyfeillion y côr Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i ddarllenwyr y golofn hon ac i holl drigolion Dyffryn Ogwen a thu hwnt.**

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres sy'n cyflwyno aelodau Côr y Penrhyn.**

**Enw**: Huw Jones
**Oed**: 50 oed
**Gwaith**: Ymchwilio i ddamweiniau ceir
**Un o le wyt ti?** Trefriw
**Sut berson wyt ti?** Mwydryn, gwalltog, clên.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** 2 flynedd
**Pa lais wyt ti?** Tenor 2
**Pam wnest ti ymuno a Chôr y Penrhyn?** Y rheswm wnes i ymuno â Chôr y Penrhyn oedd bod taid, sef Elfed Jones, Glan Ogwen yn canu gyda'r côr dros 30 mlynedd yn ôl erbyn hyn. Dwi'n gwybod basa fo wedi licio mod i wedi ymuno, ac mae'n braf teimlo mod i'n cario 'mlaen efo'r traddodiad.



**Pa un ydy dy hoff gân di yn rhaglen y côr?** Y gân orau gen i ydi *'Gwinllan'* - codi gwallt fy mhen i bob tro. Dan ni'n canu stwff Neil Young hefyd, '*Heart of Gold*', ffan mawr.
**Pwy ydy dy hoff ganwr di y tu allan i'r côr?** Gruff Rhys- edrych ymlaen at weld y Super Furries yn Llandudno flwyddyn nesa.
**'Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n mwynhau cerddoriaeth pop dda yn fawr iawn a dan ni mor lwcus bod Neuadd Ogwen yn gallu denu cerddorion gwych i Fethesda mor rheolaidd - mae gŵyl Ara Deg yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi.
**Wyt ti wedi mwynhau ymweliad efo'r côr i rywle?** Buon ni i Ganada ddeufis yn ôl ac mi gawson ni i gyd gymaint o amser da dros y 10 diwrnod ,roedd canu gydag Elis Derby a Rhys Meirion yn yr eglwysi yn Toronto ac Ottowa yn wych.
**Oes gen ti ddiddordebau y tu allan i'r côr?** Pêl droed- nai ddim deud pwy dwi'n cefnogi- maen nhw'n sâl iawn y tymor yma a dwi di cael hen ddigon o dynnu coes!
**Oes 'na rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Baswn i'n hoffi gweld y côr yn cario 'mlaen am 100 mlynedd arall, ac mi faswn i'n argymell unrhyw un i ymuno ag unrhyw gôr, yn enwedig Côr y Penrhyn, maen nhw'n griw arbennig. Ddim yn aml mae côr fel Côr y Penrhyn ar stepan y drws. Mi ddylai rhywun sydd efo diddordeb mewn canu ddod draw i gael gweld pa mor dda ydyn nhw ar unrhyw nos Lun, ac mi fasen nhw'n cael croeso cynnes.

# YSGOL LLANDYGAI

Mae mis Tachwedd wedi bod yn fis prysur iawn ar draws yr ysgol wrth i ni ymuno gyda'r pentrefwyr, croesawu ymwelwyr, casglu arian a mynd ar ymweliad.

Ar Dachwedd yr 11eg, ymunodd holl ddisgyblion yr ysgol gyda thrigolion pentref Llandygai o flaen giatiau'r Eglwys am 2 funud o dawelwch. Roedd pob dosbarth wedi paratoi torch pabi coch i'w gosod ar giatiau'r Eglwys wrth i ni fyfyrio a chofio. Cyn y tawelwch, bu disgyblion Dosbarth Tirion yn adrodd cerdd 'In Flanders Fields' a bu i 2 o'r disgyblion hynaf ddarllen enwau trigolion y pentref a gollwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Yn dilyn y seremoni, canwyd clychau'r Eglwys am 'Chwarter Caniad'.



Cawsom ddiwrnod lliwgar iawn i godi arian at Blant mewn Angen. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol bnawn o weithgareddau ac wrth gwrs, roedd rhaid cael stondin



gacennau! Diolch i bawb am eu rhoddion caredig tuag at yr elusen. Bu i ni godi £235.20 ar y diwrnod.

Croesawodd y Criw Ysbrydol ddisgyblion o Ysgol Cybi i ymweld â'r ysgol er mwyn rhannu syniadau am werthoedd Cristnogol y ddwy ysgol. Diolch am y cyfle i sgwrsio a rhannu gwybodaeth.

Wyddoch chi bod Cylch Ti a Fi wedi cychwyn yn y Cylch Meithrin ar bnawniau Mercher? Braf iawn oedd gweld rhieni a babanod yn cael cyfle i gymdeithasu ar Dachwedd 19eg, ac mae'r sesiynau yn parhau hyd weddill y tymor ysgol.

Ddiwedd y mis, mwynhaodd yr holl ddisgyblion ymweld â Sŵ Caer yn dilyn derbyn tocynnau gan y Sŵ. Da oedd ymweld ar adeg gwahanol i'r arfer ac roedd pawb yn llawn hanesion ar y bysiau ar y ffordd nôl am eu hoff anifeiliaid! Diolch i gwmni Bysus Rhiwlas am ein cludo yn ddiogel.

## Galw am berchnogaeth leol a chymunedol o eiddo yn rali nid yw cymru ar werth ym Methesda

Gorymdeithiodd rhyw 250 o bobl i rali Nid yw Cymru ar Werth ddydd Sadwrn 1af o Dachwedd i ddathlu ac annog ymdrechion cymunedol i greu cartrefi, gwaith ac ynni i bobl leol.

Oherwydd diffyg gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng tai galwyd ar gymunedau lleol ledled Cymru i gymryd y grym i'w dwylo eu hunain - fel sydd wedi digwydd ym Methesda.

Ymhlith siaradwyr y rali, roedd Siân Gwenllian yr AS lleol, Mel Davies, Jaci Cullimore, Osian Jones a Huw Williams (Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor).

Mae'r areithiau i gyd i'w gweld ar dudalen YouTube Cymdeithas yr Iaith - youtube.com/cymdeithasyriaith

Rydym yn gwybod fod prisiau tai i'w prynu a'u rhentu ar y farchnad agored yn cynyddu'n llawer cyflymach na chyflogau lleol ac mae rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol yn gywilyddus o hir. Mae tai dan berchnogaeth lleol yn rhan o'r ateb.

Yn dilyn y rali yn Neuadd Ogwen cynhaliwyd cyfarfod lle clywyd gan Fentrau Cymunedol Partneriaeth Bro Ogwen, Cynllun Tai Cymunedol Bro Machno a Llety Arall sut yr aethon nhw ati i gymryd y grym i'w dwylo eu hunain, a sut gall eraill ddilyn eu hesiampl.

Rydyn ni'n awyddus i barhau â'r gwaith ar y cyd gyda'r gymuned, felly dewch i gyfarfod nesaf Rhanbarth Gwynedd a Môn Cymdeithas yr Iaith ar 12 o Ionawr am 7pm ym Mhalas Print, Stryd y Plas yng Nghaernarfon neu ar-lein. Cysylltwch am ddolen neu ragor o wybodaeth am y cyfarfod.

Ac ymaelodwch â Chymdeithas yr Iaith: https://cymdeithas.cymru/cy/ymaelodi.

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Llongyfarchiadau fil i aelod o'r gangen ar ei llwyddiant yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn ystod Mis Tachwedd, sef Margaret Jones, Cae Drain. Llwyddodd Margaret i ennill tair gwobr yn yr adran Celf a Chrefft, sef cyntaf am Addurn Nadoligaidd ar wal, a dwy drydedd wobr sef Córach / Gonc ac Addurn Bwrdd. Mae pawb o'r aelodau am dy longyfarch Margaret. Diolch am roi enw Cangen Tregarth ar y map!



Margaret wedi creu Seren Nadolig o wiail yng Nghangen Tregarth o Ferched y Wawr.

Llongyfarchiadau i bedair o'r aelodau fu'n cynrychioli y gangen yn y Cwis Cenedlaethol Merched y Wawr gynhaliwyd yn Galeri Caernarfon ar Dachwedd 7, sef Carys Dafydd, Mary Jones, Angharad Williams a Gwenda Davies. Daeth Cangen Tregarth yn bedwerydd allan o oddeutu dwsin o dimau yn Rhanbarth Arfon. Da iawn! Llongyfarchiadau i'r buddugwyr, sef Cangen Caernarfon. Daeth Cangen Caernarfon yn drydedd yn y Cwis Cenedlaethol.

Nos Lun, Tachwedd 3 rhoddwyd croeso i Eirian Muse i'r gangen yn Festri Capel Shiloh Newydd i wneud gwaith Celf gan ddefnyddio gwiail. Y dasg oedd creu addurn Nadoligaidd gan ddefnyddio gwiail a rhai addurniadau bychan lliwgar eraill i greu Seren Nadolig. Mwynhaodd pawb y gwaith credu ac aeth pawb adra gyda seren werth chweil, tasg oedd ddim yn hawdd o gwbwl. Da iawn genod.

Nos Lun, Rhagfyr 1, bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig yng Nghlwb Rygbi Bethesda gyda Cinio Dolig blynyddol. Diolch i'r pwyllgor am drefnu ac i Wayne a staff y Clwb am y wledd. Bydd y gangen yn ymuno eto yn y Festri am 7.30 ar Chwefror 2il pan ddaw'r awdures Angharad Tomos o Benygroes i siarad ar y teitl 'Castell Siwgwr' a thema'r gystadleuaeth fydd 'Chwalfa'.

Croeso i aelodau newydd ymuno gyda merched y gangen!

**Ysgoloriaeth Celf a Chrefft**
Llongyfarchiadau i Elliw Davies, Bethesda, sydd yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, am ennill Ysgoloriaeth Celf a Chrefft Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni.

Mae Elliw yn wyres i Gwen ac Alwyn Owen, Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

**Penblwydd arbennig**
Penblwydd hapus ac arbennig i Gwen Davies, Tansgrafell Isaf, sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Ragfyr 7. Cofion annwyl atoch Gwen gan bawb yn Nyffryn Ogwen.

**Yn yr Ysbyty**
Gwellhad llwyr a buan i Mona Jones, Ffordd Tanrhiw, sydd yn Ysbyty Gwynedd ac i Beryl Brown sydd hefyd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Gwellhad buan i chi.

Anfonwn ein cofion at Glenda Ellis. Mae Glenda wedi symud o Ysbyty Gwynedd ac yn awr yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon.

Mae John Davies, Tansgrafell Isaf, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ac yn awr yn Ysbyty Eryri ers tri mis. Cofion am wellhad buan John. Cofion at bawb arall o'r ardal sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Rhowch wybod amdanynt i un o'r gohebwyr.

**Profedigaeth**
Bu farw Edward Glyn Humphreys-Jones, o Fron Ogwen, Hen Dyrpeg yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 13 ac yntau'n 82 oed. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Jacquie, ei fab Rex, a cofiwn am ei ddiweddar ferch Sara. Roedd yn dad yng nghyfraith i Non a Mark ac yn daid i Caleb, Mabli, Ioan, Dyddgu, Gwilym, Jac, Cai, Twm a Lleu. Bu ei angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ar Ragfyr 15.

## Capel Shiloh Newydd

Yr oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
**Rhagfyr 21** – Oedfa Nadolig yr aelodau am 2 o'r gloch
**Rhagfyr 21** – Dawel Nos, Ysgol Glanaethwy am 7 o'r gloch.
**Rhagfyr 24** – Oedfa Noswyl Nadolig am 5 o'r gloch
**Rhagfyr 27** – Dim gwasanaeth
**Ionawr 4** – Olaf Davies, Llandegfan
**Ionawr 11** – Dr Ian Morris , Oedfa Gymun
**Ionawr 18** – R.O Jones, Gaerwen
**Ionawr 25** – Dr Ian Morris

Diolch o galon i'r aelodau a ffrindiau am eich rhoddion caredig o arian ac anrhegion Nadolig tuag at Gronfa Gweithredu dros Blant. Caredig iawn a phleser oedd eu trosglwyddo i'r gronfa yn Wrecsam.

Anfonwn ein cofion am wellhad llwyr a buan i un o deulu Rhian Evans-Hill, Rhiwlas. Mae ŵyr bychan Rhian, Gruff, sydd yn rhai misoedd oed, wedi cael llawdriniaeth ac yn araf wella. Mae'n fab i Heledd a Chris, a dymunwn y gorau iddyn nhw fel teulu.

Gwellhad llwyr a buan i un o'n haelodau, Anwen Griffiths, Dwygyfylchi sydd wedi cael llawdriniaeth yn ystod mis Tachwedd. Da gweld dy fod yn gwella Anwen.

Anfonwn wellhad buan i Mona Jones, Ffordd Tanrhiw sydd yn dod yn rheolaidd i Drws Agored ar fore Gwener i Shiloh Newydd.

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000



# YSGOL TREGARTH

### Diwrnod Plant Mewn Angen

Cafodd yr ysgol ddiwrnod arbennig wrth gefnogi Plant Mewn Angen, gyda'r plant yn gwisgo pyjamas neu ddillad lliwgar i nodi'r achlysur.  Casglwyd cyfanswm o £93.30 ar gyfer yr elusen. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.





### Samaritan's Purse

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gyfrannu bocs at elusen Samaritan's Purse yn ddiweddar. Rydym fel ysgol wedi llwyddo i gasglu 17 bocs fydd yn mynd yn anrhegion i blant llai ffodus na ni y Nadolig hwn. Diolch eto i bawb am gefnogi'r elusen.



### Ymweliad dosbarth Y Garn

Cafodd dosbarth Y Garn ddiwrnod braf iawn yn ddiweddar yn ymweld â dwy gastell fel rhan o'u thema. Treuliwyd rhan o'r bore yn ymweld â chastell Dolbadarn cyn mynd draw wedyn i gastell Caernarfon. Profiad hyfryd cael gweld dwy gastell wahanol a bydd yr ymweliad yn sicr o gyfoethogi gwaith y plant yn y dosbarth.





## Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Cafodd yr ysgol ddiwrnod llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Diolch yn fawr i bob un ohonoch am gystadlu - roeddech chi'n wych!

Dyma'r canlyniadau:

- Unawd bl.2: Cydradd 3ydd Norah a Holly.
- Unawd bl.3 a 4: 3ydd Greta
- Llefaru bl.5 a 6: 3ydd Mabli
- Cor: cydradd 3ydd
- Parti llefaru: Cydradd 1af
- Gwaith 3D Bl.5: Elsi 1af, Ianto 2il
- Gwaith 3D Bl.6: Bobby 1af, Lillie 3ydd
- Cerdyn Cyfarch: Tomos Bl.6 2il

Mae Miss Griffith, Mrs Parry a Miss Humphreys yn falch iawn ohonoch!

Diolch o galon i'r holl rieni a theuluoedd wnaeth gefnogi y plant drwy'r dydd, mae'r ysgol yn falch iawn o'ch cefnogaeth.








### Noson ffilm

Yn ddiweddar, cafodd plant yr ysgol gyfle i ymuno mewn noson ffilm. Roedd dewis o 4 ffilm iddynt wylio heb anghofio cyfle i gael popcorn a diod. Roedd yn braf cael pawb hefo'i gilydd yn mwynhau gwylio'r ffilmiau.



# CHWILAIR

## Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen gan John Ll. Williams a Lowri W. Williams

Yn y Chwilair mis yma MAE TEITL DEUDDEG ERTHYGL ODDIAR WEFAN HANES DYFFRYN OGWEN sydd wedi ymddangos tros y deng mlynedd diwethaf i'w darganfod. Mae gair Saesneg yn un o'r atebion. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn <u>un</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Rhagfyr.

Bydd gwobr o **£10** i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Os oes genych ddiddordeb yn hanes ein hardal, yna mae yn werth i chwi bori trwy'r wefan yma, os nad ydych yn cael golwg rheolaidd arni, Mae yn llawn o wybodaeth diddorol.

Rhai ohonoch wedi darganfod **Y Cryw Siefydlog** yn y Chwilair mis diwethaf, ond yn anffodus damwain hollol oedd y llythrennau yma wedi disgyn wrth eu gilydd. Nadolig Llawen i chwi oll.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | A | H | T | E | A | N | A | S | A | W | H | T | E | A | C | A | W | F | H |
| R | E | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H |
| P | E | N | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | A | D | D |
| E | B | Y | T | G | I | L | O | H | T | A | G | S | Y | W | L | G | E | R | Y |
| R | R | S | C | R | A | P | Y | D | E | O | C | U | A | R | B | Y | W | L | L |
| S | A | G | C | N | E | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | Q | Z |
| O | I | O | G | A | R | F | H | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | A | S | Z |
| N | C | L | B | U | P | T | L | F | D | X | U | P | W | R | H | H | C | Q | H |
| D | H | T | W | U | E | E | H | L | O | Y | E | E | G | E | C | O | M | H | E |
| Y | M | A | P | T | H | T | L | C | A | B | B | C | U | L | U | J | P | L | T |
| S | E | N | M | I | V | C | V | O | D | N | C | B | W | B | F | R | F | O | G |
| T | L | C | J | V | I | I | A | R | G | R | L | B | X | I | M | H | T | T | O |
| A | Y | A | S | K | O | P | W | R | R | W | Y | L | C | M | K | C | B | O | R |
| N | N | P | C | X | V | R | Y | H | R | N | E | S | E | T | M | R | E | F | Y |
| N | J | E | D | Z | H | B | C | W | A | A | O | N | S | C | C | R | A | I | X |
| E | N | L | I | L | X | J | J | T | M | B | W | W | T | E | H | X | M | D | X |
| S | K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | G | E | R | Z | I | Q | R | O |
| C | **C** | **H** | **W** | **A** | **R** | **E** | **L** | **Y** | **F** | **O** | **E** | **L** | S | T | D | G | D | W | S |
| L | Z | E | B | E | T | Y | N | T | W | R | V | I | L | L | A | G | E | A | J |
| K | J | C | L | N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J |

**Dyma atebion Chwilair Tachwedd:** Afonydd Gwynedd; Blodau; Brenhinoedd; Dyfeiswyr Cymraeg; Englynion; Ffermydd Penrhyn; Gweithfeydd; Hanes Dyffryn Ogwen; Pontydd; Srtydoedd; Trefi Lloegr.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Judith Hughes, Llangoed; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Huw Williams, Erw Las; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Eirwen Owen, Erw Las; Gwen Davies, Bethesda.

**Enillydd Tachwedd oedd:** Eirwen Owen, Erw Las, Bethesda


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru



07765 400140 — Arllechwedd
07747 690456 — Gerlan
07789 742092 — Canol Bethesda
07436 927237 — Tregarth & Mynydd Llandygai
07949 034967 — Rachub

# Cwm Idwal: Siapiwyd gan Dân, Grym a Rhew gan Dr Niel Williams

Mae Cwm Idwal yn lle sy'n teimlo'n fyw gyda chof. Mae niwl yn drifftio ar draws dyfroedd tywyll Llyn Idwal, mae clogwyni'n codi mewn waliau llwyd serth, ac mae'r awyr yn cario adlais o rywbeth hynafol. Cerdded yma yw cerdded trwy amser ei hun - lle mae pob craig, pob crib, a phob crychdon mewn carreg yn adrodd pennod o stori sut y ganwyd Eryri. O dan yr harddwch tawel mae cofnod o drais annirnadwy: llosgfynyddoedd yn rhuo, cyfandiroedd yn gwrthdaro, a rhewlifoedd yn malu'r tir i siâp. Mae tawelwch y dyffryn heddiw yn cuddio gorffennol tanllyd a rhewllyd a roddodd ei mynyddoedd i Gymru.

**Pan losgodd Eryri**

Tua 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl, yn ystod y Cyfnod Ordofigaidd, roedd Gogledd Cymru yn gorwedd ger ymyl cefnfor aflonydd - Cefnfor Iapetus. O dan ei donnau, roedd craig dawdd yn codi ac yn ffrwydro mewn ffrwydradau cynddeiriog. Ar un adeg, roedd yr hyn sydd bellach yn Eryri yn arc ynys folcanig, yn fyw gyda chymylau lludw a lafa yn llifo.

Ganwyd creigiau Cwm Idwal o'r ffrwydradau hyn. Setlodd haenau o ludw folcanig, pwmis, a rhyolit tawdd a chaledu'n garreg— creigiau rydyn ni bellach yn eu galw'n dyffau. Gallwch eu gweld yn y clogwyni uwchben Llyn Idwal: trwchus, wedi'u haenu'n fân, ac wedi'u marcio gan greithiau ffrwydradau hynafol. Rhwng y penodau tanllyd hyn, caniataodd amseroedd tawelach i dywod a mwd setlo, gan adael bandiau tenau o waddod sy'n dal i blethu trwy'r haenau folcanig. Yna daeth trychineb. Ar ôl ffrwydrad enfawr, cwympodd y ddaear o dan Eryri i mewn, gan ffurfio caldera folcanig enfawr. Cafodd ffurfiant Cwm Idwal, sy'n dominyddu muriau'r dyffryn, ei ffurfio o'r malurion a'r lludw wedi'u weldio at ei gilydd yn yr eiliad ddinistr hon. Nid carreg yn unig yw'r creigiau hyn — nhw yw gweddillion rhewedig anadl farw llosgfynydd.

**Mae'r ddaear yn plygu a mynyddoedd yn codi**

Miliynau o flynyddoedd yn ddiweddarach, wrth i gyfandiroedd symud a gwrthdaro, gwthiwyd gwely môr tawel Gogledd Cymru i fyny. Daeth cau Cefnfor Iapetus â'r Orogeni Caledonaidd i fodolaeth — cyfnod o adeiladu mynyddoedd aruthrol a blygodd a chywasgodd y gramen yn gopaon newydd. Yn ystod y cynnwrf hwn y ffurfiwyd Synclin Idwal — plyg enfawr i lawr yn y creigiau folcanig. Gallwch ei weld yn glir o lan Llyn Idwal: mae'r haenau o graig yn plygu'n raslon tuag at ganol y cwm cyn codi eto y tu hwnt i'r clogwyni. Mae siâp y dyffryn yn adlewyrchu'r plyg hwn — powlen garreg fawr a gerfiwyd yn gyntaf gan bwysau, yna'n ddiweddarach gan rew. Y plygiadau hyn yw ôl bysedd y Ddaear — olion y grymoedd dwfn a roddodd galon garw Eryri.

**Iâ yn gorffen y gwaith**

Ewch ymlaen yn gyflym i'r Oes Iâ diwethaf, tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl, pan lifodd rhewlifoedd i lawr y dyffryn, gan falu a cherfio creigiau gwan y synclin. Gwagodd y rhewlif y basn sydd bellach yn dal Llyn Idwal, gan dynnu darnau o dyff folcanig a gadael clogwyni serth Slabiau Idwal a chribau miniog Y Garn a Glyder Fawr ar ôl. Pan doddodd yr iâ o'r diwedd, gadawodd ei gardiau galw: marianau, llethrau sgri, a chwm wedi'i gerflunio'n berffaith. Y rhewlif oedd yr artist a orffennodd y cynfas, gan ddatgelu'r harddwch a aned o amser dwfn.

**Tirwedd sy'n Siarad am Amser**

Heddiw, mae Cwm Idwal yn fwy na dyffryn mynyddig - mae'n gadeirlan naturiol o ddaeareg, lle mae'r creigiau eu hunain yn sibrwd stori geni Eryri. Mae pob haen o dyff, pob plyg a hollt, yn dal darn o fyd sydd wedi mynd ers tro byd. I sefyll ar lannau Llyn Idwal yw teimlo'r stori honno o dan eich traed: y tân a ffurfiodd y tir, y grym a'i plygodd, a'r iâ a'i cerfiodd. Yng nghanol llonyddwch y cwm, mae'r grymoedd hynafol hynny'n aros — nid mewn sain na symudiad, ond mewn carreg, yn adrodd hanes sut y daeth tirwedd yn chwedl.

## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y byddwn yn croesawu dau o brif enwau cerddoriaeth werin Cymru i Neuadd Ogwen yn y Flwyddyn Newydd: y triawd nodedig Vri a'r feiolinydd a chyfansoddwraig adnabyddus Angharad Jenkins. Bydd y gig yn cael ei gynnal yn Neuadd Ogwen ar 29 o Ionawr fel rhan o'n rhaglen o ddigwyddiadau cymunedol – bydd yn noson arbennig o gerddoriaeth fyw, egnïol ac ysbrydoledig.

Mae Vri wedi ennill clod ledled Cymru a thu hwnt am eu hymagwedd arloesol at y traddodiad, gan gyfuno sain ffidl, gitâr a bas i greu profiad unigryw. Mae Angharad Jenkins, sy'n adnabyddus fel aelod o'r grŵp Calan a phrosiectau amlgyfrwng eraill, yn gerddor a chyfansoddwraig sy'n dod â dyfnder a sensitifrwydd arbennig i'w pherfformiadau. Mae'n fraint cael y ddau enw arbennig hyn yma yn Nyffryn Ogwen.

Gyda'r Nadolig ar y gorwel, mae tocynnau ar gyfer y noson hon yn anrheg berffaith i unrhyw un sy'n caru cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth werin gyfoes – rhywbeth ychydig yn wahanol ac yn bendant yn gofiadwy! Gellir dod o hyd i fanylion pellach a phrynu tocynnau ar wefan Neuadd Ogwen.

Yn ogystal â hyn, rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Siân Gwenllian AS yn ymuno â ni ar 5 Mawrth ar gyfer ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Dyma fydd ei hanerchiad olaf i ni fel Aelod o'r Senedd dros Arfon, wrth i'r ardal ddod yn rhan o etholaeth newydd Bangor Conwy Môn. Rydym yn ddiolchgar i Siân am ei blynyddoedd o wasanaeth a chefnogaeth ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu unwaith eto i'r Dyffryn.

**Cylchlythyr Ein Hanes Ni: Llanllechid a Rachub**



Galwad am hanesion a hen luniau i'w cynnwys mewn' cylchlythyr byr am hanes Llanllechid a Rachub.

**Diddordeb cyfrannu?**

Cysylltwch â gwenlli@mentermon.com neu ffoniwch 01248 858 845 erbyn y 7fed o Ionawr, os gwelwch yn dda.

MENTER MÔN

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

## Capel Bethlehem

**Oedfaon (am 2 o'r gloch)**
Rhagfyr 21 : Parchg. John Pritchard.
Rhagfyr 28 : Parchg. R. O. Jones.
Ionawr 04 : Oedfa Dechrau'r Flwyddyn.
Ionawr 11 : Parchg. Ronald Williams.
Ionawr 18 : Mr. Dafydd Iwan.

Croeso cynnes i bawb.

**Bwrlwm Bethlehem**
Aeth criw o aelodau'r Bwrlwm i fwynhau cinio Nadolig i Gaffi Cymunedol Bethel ar 11 Rhagfyr.

**Ffair Nadolig**
Cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol eleni ar nos Fawrth, 2 Rhagfyr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r rhai fu'n cynorthwyo ar y noson.

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909




**Priodas**
Llongyfarchiadau i Cindy ac Andrew o Fangor ar eu priodas yng Nghaernarfon y mis diwethaf. Cindy yw merch ieuengaf Lis a'r diweddar annwyl Richard Williams, Glan Bethlehem, ac Andrew yn fab i Rosalie Davies, 28 Cae Gwigin. Mae ganddynt efeilliaid 6 oed, Aaron a Luk, y ddau yr un ffunud â'i gilydd ac yn llawn direidi. Dymunwn iechyd da a phob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

**Dymuniadau gorau**
Bydd Emma Hughes, 18 Cae Gwigin, yn dechrau swydd newydd ar ôl y Nadolig, yn nyrsio cleifion sy'n derbyn gofal arbennig yn eu cartrefi. Fedra'i ddim meddwl am neb gwell nac Emma i godi calon rhywun yn ei waeledd. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn y gwaith.

**Llongyfarchiadau**
Mae Deion Pritchard, 14 Dolhelyg, wedi cael ei dderbyn ar Gynllun Dug Caeredin. Wrth iddo gwblhau'r tasgau ar gyfer y cam cyntaf, Lefel Efydd, bydd angen iddo wneud cryn dipyn o waith gwirfoddol. Cofiwch amdano, drigolion Talybont; mae o'n weithiwr heb ei ail.

**Calendrau'r 'Llais'**
Diolch o galon i'r cwsmeriaid sydd wedi prynu calendrau gennyf. Mae yna fynd garw arnynt eleni. Mae pawb yn canmol y lluniau hardd a diwyg y Calendr ac yn falch bod digon o le arnynt i nodi dyddiadau pwysig.

**Cyfarchion**
Dymunwn Nadolig dangnefeddus i'n ffrindiau oll yn y Dyffryn, gan obeithio y cânt fendith a chysur yng nghwmni teulu a chyfeillion dros yr Ŵyl.

## Cae Cymunedol Talybont - Cyfarfod Cyhoeddus nos Iau 20fed o Dachwedd

Siomedig a dweud y lleiaf oedd y nifer ddaeth i'r cyfarfod. Allan o holl drigolion Talybont, dim ond pedwar fynychodd y cyfarfod.

Holl bwrpas y cyfarfod oedd i drafod dyfodol y cae chwarae sy'n eiddo'r Cyngor lleol, ac felly trigolion Talybont. Mae cynllun wedi ei lunio yn seiliedig ar ddymuniadau'r trigolion ac yn cynnwys:

- Llain 5 bob ochr ar gyfer pêl-droed a phêl-rwyd
- Trac llydan ar gyfer pob oed i gerdded, rhedeg, beicio cychwynnol
- Gerddi cymunedol ar ffurf 'raised beds' i'w gwneud yn haws i bobl hŷn, cadeiriau olwyn ayyb
- Man ymlacio efo byrddau i ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn
- Tirwedd gwyllt i ddenu natur
- Man parcio i dynnu moduron oddi ar y ffordd

Rydym yn y broses o wneud cais am grant i gyflawni'r gwaith a phrynu offer. Mae rhan helaeth o'r cais yn gorfod dangos ymrwymiad y gymuned i'r fenter, sy'n golygu parodrwydd i wirfoddoli ar gyfer trefniant, cynnal a chadw ayyb.

Heb allu dangos tystiolaeth o'r ymrwymiad hwn does dim gobaith o gael yr arian. Felly, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn cael atebion i'r holiaduron anfonwyd allan.
**Evan Jones (ar ran Cyngor Llanllechid)**

## Eglwys St Cross

**Cydymdeimladau**
**Gareth**: Roeddem yn drist iawn o glywed bod un o'n trefnwyr angladdau lleol, Gareth Wyn Williams, wedi marw yn annisgwyl ar ôl dioddef salwch. Dros y blynyddoedd cyfrannodd gymaint at gynifer o deuluoedd yn yr ardal a thu hwnt gan eu cefnogi trwy gyfnodau anodd wrth iddynt gladdu eu hanwyliaid. Bydded iddo orffwys mewn hedd. Estynnwn ein cydymdeimlad i Gwenan a theulu cyfan Gareth yn eu galar.

**Geraint**: Cawsom sioc ofnadwy, hefyd, o glywed bod ein horganydd, Geraint Gill, wedi marw yn hollol sydyn ac annisgwyl yng nghanol mis Tachwedd. Yn gerddor talentog ac amryddawn, gyda llais tenor gwych, roedd o wedi canu'r organ i ni yn Eglwys St Cross ac Eglwys St Tegai am flynyddoedd. Roedd yn gyfeilydd galluog ar y piano, hefyd, a bu'n arwain ac yn canu mewn sawl côr, gan gynnwys Cantorion Monteverdi, Cantamus ac Oriana. Byddai'n canu o bryd i'w gilydd yn yr Eglwys Gadeiriol, ac roedd hefyd yn mwynhau canu yn operâu Gilbert a Sullivan. Dw i'n cofio iddo gael ei berswadio un tro i ganu deuawd a dawnsio 'dawns urddasol' o 'Ruddigore' gyda fi, Catrin Hobson, mewn cyngerdd yn Eglwys St Tegai! Ond rydym wedi colli nid yn unig cerddor rhyfeddol, ond ffrind da hefyd. Mae ein tristwch yn ddwfn a bydd colled fawr ar ei ôl - bydded iddo orffwys mewn hedd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w wraig, Helen, a'i deulu cyfan yn eu galar a thristwch

**Gwasanaeth Carolau**
Byddwn yn cynnal ein Gwasanaeth Carolau ddydd Sul, 21ain Rhagfyr, am 11 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

# Natur o'n Cwmpas



## Y Llwynog

Mae'n debyg mai cyfrwystra yw priodoledd amlycaf y llwynog, ac mae gan ein hardal ei fersiwn ein hun o'r gymhariaeth adnabyddus: Cyn gyfrwysed â llwynog yr Aryg.

Mae'r Aryg, y mynydd rhwng y Bera Bach a Charnedd Gwenllian (y Garnedd Uchaf) efo'i greigiau'n dyrrau plith draphlith, yn lle arbennig o dda i lwynogod wneud eu daearau, fel y medr helwyr lleol dystio.

Dyma greadur y mae yna ddwy farn gref yn ei gylch. Ar y naill law mae'r ffermwyr yn ei ystyried bob amser yn fygythiad gan ei fod yn lladd ŵyn, ieir, hwyaid a gwyddau, ac ar y llaw arall mae llawer o naturiaethwyr yn barod i amddiffyn ei gam. Cawn sawl cyfeiriad at lwynogod yn y Beibl, a dyma i chi un lle maen nhw'n cael eu hystyried yn felltith: 'Daliwch i ni'r llwynogod, y llwynogod bychain sy'n difetha'r gwinllannoedd' (Caniad Solomon 2:15).

Os na fedr gipio ŵyn neu ddofednod fferm, bydd yn gorfod dibynnu ar ddal aderyn gwyllt, cwningen cyn iddi ddianc i'w thwll, neu ddwyn lefran o'i gwâl. Bydd llygoden, llyg, gwiwer a llyffant yn rhan o'i arlwy, ac yn eu tymor bydd aeron llus yn ei ddenu.

Mae gan y llwynog wahanol enwau yn ein hiaith – llwynog, cadno, madyn. Er mai'r enw 'llwynog' a ddefnyddir ar lafar yn ein hardal, nid yw'r enw 'cadno' yn ddiarth yma gan fod cwm o'r enw Cwm Cadno yng ngheg Cwm Ffynnon Gaseg. Wedi ymddangosiad storïau J.O. Williams yn *Llyfr Mawr y Plant* yn yr 1930au, daeth yr enw Siôn Blewyn Coch yn boblogaidd.

Dywediad cyffredin yw 'cysgu llwynog', sef smalio cysgu i ryw ddiben manteisiol. Flynyddoedd yn ôl llwyddodd naturiaethwr o Rwsia i ffilmio llwynog yn gorwedd yn yr haul fel pe bai'n cysgu. O'i weld yn llonydd, daeth brân ar adain i lawr yn y gobaith o dynnu ei lygad. Pan ddaeth hi o fewn cyrraedd iddo, dyma'r llwynog mewn un symudiad chwim yn cydio ynddi efo'i bawen gan droi a chodi a rhoi ei ddannedd ynddi. Fodd bynnag, roedd rhai'n credu mai cysgu go iawn yr oedd y llwynog, a bod ei glust fain wedi dal sŵn adenydd y frân a'i ddeffro.

Bu'r llwynog yn destun cerddi gan feirdd drwy'r canrifoedd, ond nid gwaith hawdd yw ei wylio, ac mae rhywun yn ffodus o gael cip arno, ran amlaf yn gwbl annisgwyl. Dyna fu profiad R. Williams Parry a ddaliwyd yn ei soned gyfareddol:

Llithrodd ei flewyn cringoch dros y grib;
Digwyddodd, darfu, megis seren wib.

Bu hen gred fod dwy rywogaeth yng Nghymru – y llwynog mynydd yn fawr, yn gryf, yn gyflym ac yn fwy llwydaidd ei liw, a'r llwynog llawr gwlad yn llai, yn gochach a heb fod cystal rhedwr. Ar un adeg, aed â llwynogod mynydd i wastadeddau Lloegr oherwydd credid eu bod yn cynnig mwy o her i helgwn y tirfeddianwyr yno. Fodd bynnag, nid oedd y naturiaethwyr gwyddonol yn barod i dderbyn bod dau fath o lwynog yma, gan ddadlau mai natur eu gwahanol gynefinoedd dros ganrifoedd lawer sy'n gyfrifol am unrhyw wahaniaethau.

Cawn ragor o hanes yr anifail diddorol hwn y tro nesaf.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

# Parcio Nadolig am ddim ym Meysydd Parcio Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig parcio am ddim yn ei holl feysydd parcio o 11yb bob diwrnod o 13 tan 27 Rhagfyr 2025.

Mae'r cynnig parcio yn rhan o ymgyrch i annog siopa'n lleol a chefnogi busnesau'r sir.

Dywedodd y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd: "Mae siopau a busnesau Gwynedd yn rhan bwysig iawn o economi'r sir ac rydym yn gobeithio y bydd y cynnig parcio yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig yn cynnig hwb iddynt.

"Fel rhan o'r ymdrech, byddwn yn cynnig parcio am ddim ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd o 11yb bob dydd o 13 tan 27 Rhagfyr eleni.

"Bydd hyn yn rhoi cyfle i drigolion gymryd mantais o'r cynnig parcio a chefnogi'r amrywiaeth o fusnesau arbennig sydd gan Wynedd i'w gynnig."

Mae gwybodaeth am yr amrywiaeth o gynnyrch a danteithion sydd ar gael o lawer iawn o fusnesau Gwynedd i'w gweld ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr yma: **www.visitsnowdonia.info/cy/siopau-cynnyrch-lleol** a dilynwch eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a'r hashnodau **#PrynuLleol #CefnogiLleol** i weld mwy am ddigwyddiadau a nosweithiau siopau dros gyfnod y Nadolig.

Ymgyrch ym meysydd parcio cyhoeddus talu ac arddangos Cyngor Gwynedd ydi hwn a bydd ffioedd yn ail-gychwyn o 28 Rhagfyr. Bydd arwydd ar bob peiriant talu ac arddangos ym meysydd parcio cyhoeddus y Cyngor, felly os nad oes nodyn i'w weld, dylech wirio os ydi o'n faes parcio'r Cyngor.

Mae lleoliad holl feysydd parcio Cyngor Gwynedd ar gael ar-lein: **www.gwynedd.llyw.cymru/parcio**




**NODYN**: Dylai unrhyw un sy'n parcio mewn maes parcio preifat neu sy'n eiddo i gorff arall wirio'r trefniadau yn ofalus cyn parcio gan ei bod yn bosib na fydd parcio am ddim ar gael yno.

# Cyfarfod yr Hwyr – Nos Wener Tachwedd 14, 2025

Canlyniadau Adran Llenyddol
Enillydd y Gadair:
Osian Wyn Owen, Y Felinheli
Enillydd y Fedal Ryddiaith:
Lowri Wynne Williams, Caernarfon
Enillydd Medal yr Ifanc:
Lois Ryder
2il – Erin Carson
Llên Agored
Englyn – John Ffrancon Griffith, Abergele
Gorffen limrig – J. Richard Williams, Llangefni
Englyn ysgafn – Ifan Prys, Llandwrog
Stori fer – Catrin Fflur Huws, Aberystwyth
Llên yr Ifanc
Blynyddoedd 7-9:
1af – Efa Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Addison Elis Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen
Cydradd 3ydd – Ela Williams ac Elenia D'Amora – Ysgol Dyffryn Ogwen
Blynyddoedd 10-11:
1af – Siwan Griffith – Ysgol Dyffryn Ogwen








# EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN



















# Canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen Tachwedd 15, 2025

Llefaru Meithrin.
1af – Anya Rowlands – Ysgol Abercaseg
2il – Cerys Owen – Ysgol Abercaseg
3ydd – Llyr Williams – Ysgol Abercaseg
Unawd Meithrin.
1af – Llyr Williams – Ysgol Abercaseg
2il – Nora Lewis Jones – Ysgol Llanllechid
3ydd – Thor Humphreys – Ysgol Llanllechid
Llefaru Derbyn.
1af – Martha Gwen Jones – Ysgol Llanllechid
2ail – Eila Hughes – Ysgol Llanllechid
3ydd – Gwenllian Angharad – Ysgol Llanllechid
Unawd Derbyn.
1af – Eila Hughes – Ysgol Llanllechid
2il – Loti Radford – Ysgol Llanllechid
3ydd – Nanw Mair – Ysgol Abercaseg
Llefaru Blwyddyn 1.
1af – Myfi Glain Thomas – Ysgol Llanllechid
2il – Enya Jones – Ysgol Abercaseg
3ydd – Noa Roberts – Ysgol Llanllechid
Unawd Blwyddyn 1.
1af – Enya Jones – Ysgol Abercaseg
2il – Mali Vaughan Hughes – Ysgol Llanllechid
3ydd – Nansi Doyle – Ysgol Llanllechid
Unawd Blwyddyn 2.
1af – Eos Hughes – Ysgol Llanllechid
Cydradd 2il – Noa Jones a Noa Mildoon – Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Holly Jones a Nora Stones – Ysgol Tregarth
Llefaru Blwyddyn 2.
1af – Noa Jones – Ysgol Llanllechid
2il – Noa Mildoon – Ysgol Llanllechid
3ydd – Eos Hughes – Ysgol Llanllechid
Llefaru Blynyddoedd 3 a 4.
1af – Alaw Williams – Ysgol Llanllechid
2il – Nanw Glyn – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Beti Allsup – Ysgol Llanllechid
Unawd Blynyddoedd 3 a 4.
1af – Beti Allsup – Ysgol Llanllechid
2il – Nanw Glyn – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Greta Hywel – Ysgol Tregarth
Llefaru Blynyddoedd 5 a 6
1af – Mali Non – Ysgol Pen y Bryn
Cydradd 2il – Llio Evans – Ysgol Pen y Bryn ac Evie Nirenda – Ysgol Llanllechid
3ydd – Mabli Jones – Ysgol Tregarth
Unawd Cân Werin Blwyddyn 6 ac iau.
1af - Owain Bishop - Llanfairpwll
2il - Enlli Druce – Llanberis
Cydradd 3ydd – Erin Roberts ac Evie Nirenda – Ysgol Llanllechid
Unawd Blynyddoedd 5 a 6.
1af – Enlli Druce – Llanberis
2il – Owain Bishop - Llanfairpwll
3ydd – Evie Nirenda – Ysgol Llanllechid
Unawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau
1af – Erin Roberts - Ysgol Llanllechid
2il – Evie Nirenda – Ysgol Llanllechid
3ydd – Efa Hughes – Ysgol Llanllechid
Parti Llefaru Ysgol Gynradd.
Cydradd 1af – Ysgol Tregarth a Ysgol Llanllechid
Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau.
1af – Elin Burnell – Ysgol Llanllechid
Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau
1af – Eban Hughes – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Hughes – Ysgol Llanllechid
3ydd – Mila Jones – Ysgol Llanllechid
Côr/Parti Blwyddyn 6 ac iau.
1af – Ysgol Llanllechid
2il – Ysgol Pen y Bryn
Cydradd 3ydd – Ysgol Abercaseg/ Pen y Bryn ac Ysgol Tregarth
Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru
Mali Non – Ysgol Pen y Bryn
Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol
Eban Hughes – Ysgol Llanllechid
Llenyddiaeth Ysgolion Cynradd y Dalgylch
Stori
1af – Elin Burnell – Ysgol Llanllechid
2il – Erin Roberts – Ysgol Llanllechid
3ydd – Harri Herbert – Ysgol Llanllechid
Barddoniaeth
1af – Tes Roberts – Ysgol Llanllechid
2il – Elin Roberts – Ysgol Llanllechid
3ydd – Taliesin Lewis-Williams – Ysgol Llanllechid

# Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Jean Bullock, Carneddi, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb ym Môn.

**Colled**
Daeth tristwch i'r fro pan gafwyd y newyddion trist am farwolaeth Gareth Williams, Llwyn Bedw, Rachub (Garneddwen) a fu farw ar Dachwedd 17eg. Bu yn gysur mawr i lawer o deuluoedd yr ardal wrth ei waith fel ymgymerwr angladdau. Anfonwn ein cydymdeimlad at Gwenan, Laura, Dylan a Katie a'r teulu i gyd.

**Sefydliad y Merched Carneddi**
Croesawodd Nicola yr 8 aelod a oedd yn bresennol, a chafwyd ymddiheuriadau gan 5 aelod arall. Ein siaradwraig wadd oedd Glesni, a ddaeth a nifer o eitemau Nadoligaidd i ni ei wneud. Gyda'r nos bach hamddenol ac ymlaciol iawn. Diolch Glesni.

Atgoffwyd pawb am ein cinio Nadolig, ac oherwydd bod y dydd Iau cyntaf ym mis Ionawr ar y 1af, penderfynwyd na fydd cyfarfod ym mis Ionawr. Edrychwn ymlaen i gyfarfod ym mis Chwefror, ac unwaith eto, bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

**Cymdeithas Capel Jerusalem**
Croesawodd Neville y 15 aelod oedd yn bresennol. Cafwyd noson anfarwol yng nghwmni ein gŵr gwadd, sef Cai Fôn, gydag Elain Rhys yn cyfeilio. Cawsom brofi o ddoniau amrywiol Cai pan ganodd 5 cân Cerdd Dant, 4 cân Werin, 3 Clasurol a 2 gân wahanol i'r arfer, sef cyfuniad o gân Werin, a chyfeiliant wedi ei gyfansoddi gan Grace Williams. Cawsom hefyd ddatganiadau ardderchog ar y piano gan Elain. Diolchodd Neville i'r ddau ohonynt am noson i'w chofio.

Bydd ein Cyfarfod nesaf nos Iau Rhagfyr yr 11eg pan fyddwn yn dathlu'r Nadolig.

**Yn yr ysbyty**
Eto mae sawl un wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth a da deall eich bod gartref erbyn hyn ac yn gwella. Cofion cynnes atoch:
Lena Henry, Erw Las
Geraint Williams, Abercaseg
Maureen Roberts, Maes Coetmor
Glyn Williams, Rhos y Nant

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Sioned Carran a Jasper Ploer ar achlysur eu dyweddïad. Mae Sioned yn ferch i Ann Temple Morris, Ffordd Ffrydlas ac yn byw yn Seland Newydd, ac mae Jasper yn frodor o'r Iseldiroedd. Mae Sioned yn athrawes yn ysgol gynradd Edendale ar Ynys y De. Bydd y ddau yn priodi yn Bali yn 2027.

## Bore Coffi
Mewn bore coffi diweddar yng Nghapel Jerusalem roedd Clwb Camera Dyffryn Ogwen yn hynod o falch o fedru codi £290 ar gyfer Ysbyty Plant Alder Hey. Hoffai'r clwb ddiolch o galon i bawb a helpodd i wneud y digwyddiad yn un mor llwyddiannus, gan gynnwys y rhai a gyfrannodd eitemau i'w gwerthu a gwobrau raffl, hefyd Bronwen, Carys a Ceri am eu cefnogaeth a'u cymorth ar y diwrnod.



**Cyfarchion Nadolig**
Dymuna Eirwen a Dilwyn Owen, Erw Las, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau gan nad ydynt yn rhannu cardiau Nadolig eleni. Fel arwydd o ddiolch byddant yn rhoi rhodd i'r Llais sy'n llawn hanes diddorol bob mis. Diolch amdano.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Apêl**
Mae cronfa'r Apêl yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw a.y.y.b. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogir pob un yn fawr.

Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apêl, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop er mwyn cael y manylion.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru ar ôl colli anwyliaid, yn enwedig dros gyfnod y Nadolig.

Cofiwch roi gwybodaeth i'r Ficer neu Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Clwb Cant Glanogwen**
*Enillydd mis Hydref*
1af Mared Roberts
2il Alan Davies

*Enillydd mis Tachwedd*
1af Nicola Hughes
2il Ceri Medway

**Gwasanaethau dros y gaeaf!**
Mae trefn y gwasanaethau wedi eu newid o fis Medi tan y Pasg, fel a ganlyn:

Gwasanaethau Eglwys Crist:
Suliau 1af a'r 2il yn y mis: 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis am 10.30am – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Gwasanaethau'r Nadolig**
Wrth y Preseb – 4pm, Noswyl Nadolig

Bydd y gwasanaeth poblogaidd hwn yn cael ei gynnal, fel arfer, am 4pm bnawn Noswyl Nadolig, sef dydd Mercher, Rhagfyr 24. Gwasanaeth byr yn arbennig i'r plant yw hwn, a braf yw croesawu teuluoedd cyfan fel arfer.

**Cymun Nadolig, 7pm – Noswyl Nadolig**
Cynhelir ein Cymun Nadolig nos Fercher, Rhagfyr 24, am 7pm. Dewch yn llu – mae croeso cynnes i bawb!

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ein ficer ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, neu'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

Dymunwn Nadolig Heddychlon ac Iach i bawb o'n haelodau a'u teuluoedd lle bynnag y bont yn treulio'r Ŵyl.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Diolch yn fawr i'r canlynol, a fu'n ein gwasanaethu yn ystod yr wythnosau diwethaf yma: Dr Dafydd Iwan, Y Parchedig Eric Jones, Mr Richard Morris Jones , a'n Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Gwerthfawrogir eich ymroddiad a'ch ffyddlondeb i ni yma yn Jerusalem.

**Y Gymdeithas**
Diolch yn fawr i Barbara Jones, Talybont, am gyfrannu adroddiadau i'r Llais, a chroeso i'r Ysgrifennydd newydd, sef Carys Morgan Thomas, sydd yn gyfrifol amdanynt o hyn ymlaen.

Ym mis Hydref, cawsom gwmni Ben Stammers, y naturiaethwr. Dangosodd luniau o'r byd natur o'n cwmpas yma yn Nyffryn Ogwen, a hefyd cafwyd ambell enghraifft o drydar gwahanol adar. Diolchodd Neville iddo am noson ddiddorol.

Ym mis Tachwedd, cafwyd gwledd o gyngerdd yng nghwmni Cai Fôn Davies, gydag Elain Rhys yn cyfeilio iddo. Canodd Cai bum eitem Cerdd Dant, pedair cân werin, tair cân glasurol, a dwy gân wahanol i'r arfer, sef cân werin gyda chyfeiliant wedi'i gyfansoddi gan y cerddor Grace Williams. Noson arbennig dros ben. Diolchwyd i'r ddau gan Neville.



Cai Fôn Davies ac Elain Rhys

**Llenwi'r Cwpan**
Yn wahanol i'r arfer, gweinyddwyd cawl i'r rhai a ddaeth i'r baned ar ddydd Iau yn ddiweddar. Nid oeddym yn codi tâl amdano, ond cyfrannodd y rhai a oedd yno, a'r rhai a oedd yn methu a bod yno, yn hael tuag at y Capel, ac mae ein diolch yn fawr iddynt oll. Gobeithir cynnal bore cyffelyb eto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Erbyn y bydd y Llais wedi dod o'r Wasg, bydd y Gwasanaeth yma wedi cael ei gynnal. Rhoddir adroddiad llawn ohono yn rhifyn mis Ionawr.

**PWYSIG**
Oherwydd camgymeriad dybryd, mae dyddiad Gwasanaeth Nadolig Cymunedol 2026 wedi'i nodi'n anghywir yng Nghalendr Llais Ogwan: Nos Sul, Rhagfyr 13, yw'r dyddiad cywir, NID Rhagfyr 20. Gresyn mawr am hyn, a gobeithiwn na ddigwydd hyn eto!

**Marwolaeth**
Tristwch o'r mwyaf yw gorfod nodi marwolaeth Gareth Wyn Williams, ymgymerwr hoffus a diymhongar, a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i deuluoedd yr ardal. Fe'i cofiwn am ei barchusrwydd at y rhai oedd yn galaru, ac am yr urddas a amlygid yn ei waith. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at ei deulu oll yn eu hiraeth.

**Cofion**
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn dioddef o lesgedd yn ein cymuned, a dymunwn bob bendith iddynt.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Rhagfyr 21: Y Parchedig RO Jones (10)
Rhagfyr 28: Y Parchedig Cledwyn Williams(10)
Ionawr 4: Y Gweinidog (10)
Ionawr 11: Gwasanaeth Plygain (6)
Ionawr 18: Y Parchedig Olaf Davies (5)
Ionawr 25: Y Gweinidog (10)

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd!

Wele englyn gwych y Prifardd Carwyn Eckley:

Daw eiliad bob Nadolig – i bob un
  farnu be sy'n bwysig.
 Ymysg y bwyd a'r miwsig,
 be' wir a rown ar y brig?

# Cyngor Cymuned Llanllechid

**Adroddiad Cyngor Cymuned Tachwedd 2025**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd ar Nos Iau yr 13fed yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Roeddem yn falch o groesawu Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad gan Naomi o'r holl waith sydd wrthi a wedi ei gyflawni fel rhan o Brosiect Tirwedd y Carneddau. Hoffem ddiolch i Naomi am ei hamser.

Mae'r Cyngor Cymuned yn edrych mlaen cyfarfod Warden newydd y Carneddau, Dafydd Eryl.

Mae'r Cyngor Cymuned yn siomedig ynghylch y diffyg cynnal a chadw gan Gyngor Gwynedd o'r gordyfiant gwrychoedd ar rai o'r ffyrdd yn y gymuned. Byddwn yn adrodd ein pryderon i Gyngor Gwynedd.

Ac yn olaf, hoffem ddymuno Nadolig llawen i bawb a blwyddyn newydd dda!

# Llofruddio Llywelyn: Cynllwyn 1282

Ffrwyth dwy ddarlith a draddodwyd yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai ar y 10fed a'r 11eg o Ragfyr 2020 yw'r gyfrol hon. Ynddi cyflwynir tystiolaeth glir am yr amgylchiadau alaethus a bradwrus a arweiniodd at lofruddio Llywelyn ap Gruffudd ar y diwrnod tywyll hwnnw, yr 11eg o Ragfyr 1282 pan, yng ngeiriau'r cronicl, 'y bwriwyd holl Gymry i'r llawr'.

Yn 'Dinoethi Celwydd Cilmeri' mae Geraint Jones yn datgelu'r modd yr ystumiwyd y ffeithiau ynghylch marwolaeth y Llyw Olaf gan y gorchfygwyr Seisnig a chroniclwyr gelyniaethus megis Walter o Guisborough, gyda haneswyr amlwg yn derbyn hyn yn ddi-gwestiwn fel y 'gwirionedd' ar hyd y blynyddoedd.

Â Ieuan Wyn ymlaen yn 'Ar Drywydd y Gwir' i ddangos yn ddiamwys, ar sail sawl ffynhonnell wreiddiol, mai cael ei ddenu i'w farwolaeth trwy frad gafodd Llywelyn, a hynny dan gochl cyfeillgarwch, cytundeb a hyd yn oed gariad.

Dyma gyfrol y dylid ei darllen a'i hystyried gan bawb a fyn wybod y gwir am hanes ein gwlad yn ystod un o'i chyfnodau mwyaf argyfyngus.

*Llofruddio Llywelyn: Cynllwyn 1282*, Geraint Jones ac Ieuan Wyn, Gwasg Utgorn Cymru, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, 2025.




Ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg am £6.00 neu gan Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, Caernarfon LL54 5BT (07778077514) am £7.00 (sy'n cynnwys cludiant).

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygái

**Nadolig Llawen!**
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen, i staff a disgyblion Ysgol Llandygai, ein clochyddion a'n holl gefnogwyr. Gwyliau dedwydd i bawb!

Diolch i'r organyddion wrth gefn Christine Edwards ac Owain Morgan, y ddau o Eglwys Glanogwen, am eu gwasanaeth drwy'r flwyddyn a thros dymhorau'r Adfent a'r Nadolig.

**Diwrnod y Cadoediad Tachwedd 11eg 2025**
Ar Dachwedd 11eg cafwyd seremoni fer ond deimladwy wrth giatiau'r eglwys gan ddisgyblion hŷn Ysgol Llandygai i gofio aberth meirw y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail. Ar ôl gweddi darllenwyd allan enwau'r milwyr lleol a chawsom berfformiad trawiadol o gerdd adnabyddus. Gosodwyd torch pabi ar y giatiau gan bob dosbarth mewn arwydd o barch. Safodd pawb mewn tawelwch am ddau funud cyn y weddi olaf. Wrth i'r plant ac athrawon gerdded mewn distawrwydd yn ôl i'r ysgol clywsom y clychau yn dechrau'r caniad o dri chwarter awr fel teyrnged i'r dewrion. Diolch i bawb a gymerodd rhan.



**Torchau pabi gan yr eglwys a dosbarthiadau Ysgol Llandygai ar giatiau St Tegai, Diwrnod y Cadoediad 2025**

**Cydymdeimlad**
Daeth newyddion trist ddiwedd Hydref am farwolaeth Ken Owen o Fangor, brawd Alwena Williams o'r gynulleidfa. Gyrrwn ein cydymdeimlad i Alwena yn ei phrofedigaeth.

**Teyrnged i Geraint Gill**
(Dyma addasiad o deyrnged a ysgrifennodd Ann a Rhian St Tegai i Geraint, ein organydd).

Trist cofnodi marwolaeth frawychus o sydyn ein organydd Geraint Gill yn 65 oed. Bu Geraint yn organydd yn St Cross Talybont ac yn St Tegai Llandygái am flynyddoedd lawer, ac am gyfnod yn Gelli Tregarth. Roedd swyddogion yr eglwysi a llawer o'r gynulleidfa yn ei adnabod ers dros 30 mlynedd, nid yn unig yn yr eglwys ond hefyd drwy gyngherddau a gwahanol gorau lleol fel Cantamus a'r Cantorion Monteverdi. Perfformiodd Catrin Hobson, Warden St Cross a Bro Ogwen, a Geraint gyda'i gilydd mewn amryw o gynyrchiadau mewn gwyliau cerddorol, digwyddiadau Nadolig, gwasanaethau Plygain yr esgobaeth a pherfformiadau Gilbert a Sullivan. Roedd ganddo lais tenor ysgafn bendigedig.

Yn eglwyswr i'r carn, bu'n aelod o Gyngor Eglwysig St Tegai am flynyddoedd lawer ond cefnogodd yr holl eglwysi yr oedd yn mynychu ac, wrth gwrs, y Gadeirlan ym Mangor.

Un distaw yng nghwmni eraill oedd Geraint ond, unwaith yr oeddech yn ei adnabod yn dda, blodeuodd ei hiwmor unigryw. Roedd yn aelod dibynadwy o gôr y Gadeirlan ar gyfer digwyddiadau Nadolig a gwasanaethau arbennig.

Bachgen o Fangor oedd Geraint, wedi ei addysgu yn Ysgol Gymraeg Sant Paul (bellach ar gau) ac yn Ysgol Friars cyn iddo astudio Cerddoriaeth yn y brifysgol. Roedd yn ddyn deallus, yn ddarllenwr brwd (gyda gwendid am nofelau ditectif John Grisham!) ac yn ddiwylliedig gyda gwybodaeth dda o Ffrangeg ac Almaeneg. Roedd ei Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig yn raenus. Yn sicr roedd yn aelod gwerthfawr o dîm Llyfrgell Cerdd Prifysgol Bangor ac, yn ddiweddarach, o'r tîm Casgliadau Arbennig.

Cerddoriaeth oedd ei fywyd. Roedd ganddo wybodaeth eang ac eithriadol o gerddoriaeth eglwysig. Bu cerddoriaeth sanctaidd yn gysur mawr iddo a, dros y blynyddoedd, casglodd nifer fawr o lawysgrifau cerdd a llyfrau emynau yn ei gartref yn Llanfairfechan. Diflannodd y trysor yma yn ddamweiniol yn ystod clirio tŷ diweddar a drefnwyd gan

# Gair neu ddau
## John Pritchard

## Cyffro'r Disgwyl

Cyffro, sioc, llawenydd, dychryn, gobaith, ofn, rhyddhad, ansicrwydd, diolch: nid yr un ydi'r ymateb bob tro i'r newydd fod babi bach i gael ei eni. Yn aml iawn, ceir cymysgedd o emosiynau wrth i bryderon fwrw cysgod dros orfoledd rhieni a theulu. Mae'r cyfan yn naturiol gyda phob geni'n addo newid mawr i deulu ac aelwyd mewn rhyw ffordd, gyda'r cyfrifoldeb o fagu plentyn bach yn ddigon i ddychryn rhieni hen a newydd. Yn arferol, daw beichiogrwydd â'i lawenydd mawr, ond dros fisoedd yr aros am y geni dyw pryder fyth ymhell.

Ar un wedd, mor naturiol ydi darlun y Testament Newydd o Mair a Joseff cyn geni Iesu Grist. Doedd yr un o'r ddau wedi dychmygu y byddai babi mor gynnar â hyn ar yr aelwyd yr oedden nhw ar fin ei rhannu. Nid rhyfedd felly mai ymateb cyntaf y ddau i'r newydd am feichiogrwydd Mair oedd sioc a phryder a dryswch. Gwyddai Mair bod y cyfan yn amhosib gan na chafodd gyfathrach rywiol â'i dyweddi Joseff na'r un dyn arall. Gwyddai Joseff nad ef oedd y tad, a'r unig esboniad rhesymegol iddo fo oedd mai plentyn dyn arall oedd y babi. Ac o gariad a pharch at Mair, penderfynodd gamu o'r ffordd yn dawel bach.

Ond mor annaturiol hefyd y darlun. Cafodd Mair a Joseff ill dau neges ryfeddol gan yr angel: 'Daw'r Ysbryd Glân arnat' (Luc 1:35); ac 'mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân' (Mathew 1:20). Derbyn y neges honno drodd eu hofnau yn orfoledd. Credu'r neges a barodd iddyn nhw edrych ymlaen mewn ffydd at eni'r plentyn a fyddai'n 'Fab y Goruchaf' (Luc 1:32) ac yn 'gwared ei bobl oddi wrth eu pechodau' (Mathew 1:21). Y beichiogrwydd yn hytrach na'r geni oedd gwyrth y Nadolig. Mae'n wir bod amgylchiadau a lleoliad y geni'n anarferol, ond roedd y geni ei hun yn gwbl naturiol: mor naturiol â geni pob plentyn bach arall. Ac roedd raid i hynny fod am mai'r un â phob plentyn arall oedd plentyn Mair. Ynddo, daw Duw i'r byd yn ddyn: yn ddyn cyflawn, wedi ei eni fel pawb arall.

Ac nid Mair a Joseff yn unig fu'n disgwyl yn eiddgar am ei eni. Yn naturiol, bu teulu a ffrindiau'n edrych ymlaen at groesawu'r babi. Ond yn rhyfeddol, bu eraill yn rhannu'r disgwyl hwnnw. Yn annaturiol, dros ganrifoedd lawer, bu rhai'n edrych ymlaen at ddyfodiad y Gwaredwr hwn i'r byd. A thrwy gychwyn y Testament Newydd gydag achau daearol Iesu Grist, o Abraham hyd at Joseff (Mathew 1:1–17), pwysleisir y ffaith bod yr holl bobl a enwir yn rhan o'r hir ddisgwyl amdano. A'r diweddaraf yn yr olyniaeth honno oedd y bugeiliaid y dywedodd yr angel wrthyn nhw: 'Ganwyd i chwi heddiw, yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd' (Luc 2:11).

Roedd y bugeiliaid wrth eu bodd o gael gweld y babi. Gallwn ddychmygu hefyd lawenydd ffrindiau a theulu Mair a Joseff, o leiaf cyn i'r teulu bach orfod ffoi i'r Aifft rhag llid Herod. Y Nadolig hwn, cawn ninnau ddathlu o'r newydd ei ddyfodiad. Tristwch pethau ydi fod rhai'n dal i aros, heb sylweddoli na chredu iddo ddod. Dychmygwch bobl yn gwrthod â chredu bod babi wedi cyrraedd, ac yn dal i ddisgwyl, ddyddiau a misoedd a hyd yn oed flynyddoedd a chanrifoedd wedi hynny.
Nadolig Llawen i chi.

asiantaethau allanol. Ergyd lem.

Bydd chwith ar ôl ei chwarae organ, ei ddarlleniadau o'r Beibl a'i ganu hyfryd o garolau Plygain yng ngwasanaeth Noswyl y Nadolig.

Rydym oll ym Mro Ogwen wedi colli eglwyswr ffyddlon, cerddor dawnus ac aelod teyrngar o deulu'r eglwys. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Helen a'r teulu ac rydym yn cydnabod cyfraniad enfawr Geraint i addoli a bywyd yr eglwys dros flynyddoedd lawer.

Hoff emyn Geraint oedd "Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano", geiriau Elfed ar y dôn Rhys. Boed iddo orffwys yn yr hedd tragwyddol.

**Dymuniadau gorau**

Mae sawl aelod o'r gynulleidfa neu ffrind yn dioddef o anhwylder neu mewn poen parhaus ac yn disgwyl triniaeth yn eu mysg mae John Bagnall, Liz Bestwick, Dai Edwards, Pauline Edwards, Helen Gill, Eileen Griffiths, Liz Jones, Muriel Owen ac Ann E Williams. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt oll.

**Diolch**

Dymuna Ann E Williams, Warden y Ficer, ddiolch i ffrindiau ymhell ac agos am eu negeseuon a'u caredigrwydd yn dilyn ei llawdriniaeth mewn ysbyty ar y Wirral yng nghanol Tachwedd.

**Tachwedd 30ain, Sul Cyntaf yr Adfent**

Daeth pob eglwys ym Mro Ogwen ynghyd ar gyfer Cymun Bendigaid yn St Tegai am 10.00 ar Sul Cyntaf yr Adfent. Mae'n arferiad i addoli gyda'n gilydd os oes pum Sul yn y mis. Mae ein coeden Nadolig yn disgleirio wrth yr allor, diolch i ymdrechion Gethin Crump, Prif Arddwr Castell Penrhyn. Rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am ei gymwynas parod.

**Gwasanaeth Nadolig plant Ysgol Llandygai**

Bydd disgyblion Ysgol Llandygai wedi cynnal eu dathliadau Nadolig yn yr eglwys eleni ar Ragfyr 10ed pan fydd dau gyfle wedi bod i weld y perfformiadau am 2.00 ac am 5.30.

**Trefniadau Nadolig**

Gweler poster St Tegai yn Llais Ogwen y mis yma.

**Rhagfyr 21ain** Gwasanaeth Traddodiadol Naw Llith a Charol yng ngolau cannwyll am 5 o'r gloch gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.

**Rhagfyr 24ain** Noswyl y Nadolig, Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr

**Apêl Nadolig Clochdy St Tegai 2025**

A fuasech eto yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St Tegai i sicrhau waliau'r clochdy? Eleni canolbwyntir ar atgyweirio'r rhan yma o'r adeilad. Fel y gwyddoch, rydym eisoes wedi atgyweirio'r to a'r drws yn ystod yr Haf ac rydym nawr yn troi ein sylw at ailbwyntio'r waliau.

Derbynnir rhoddion at Apêl y Nadolig yn ddiolchgar fel arian parod ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i Llandegai Church) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn ddiwedd Rhagfyr 2025 os gwelwch yn dda.

- Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719* annacoed@hotmail.com
- Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
- Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD *01248354369*
- Rhian Llewelyn Jones, 15 Trefonwys, Bangor Gwynedd LL57 2HU

Diolch i'r rhai di-enw sydd wedi cyfrannu drwy flwch postio'r Warden yn dilyn yr apêl yn Llais Ogwan mis Tachwedd.

**Manylion Cyswllt**

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts, SaraRoberts@churchinwales.org.uk.














## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Newyddion da!**
Fel y gŵyr nifer ohonoch chi fe fu Tony Jones, Bron y Waun, yn teithio'n gyson i Ysbyty'r Royal Liverpool yn Aintree bob mis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn derbyn triniaeth arbenigol. Y newyddion gwych ydi ei fod o wedi derbyn gair o'r ysbyty yn ystod mis Tachwedd i ddweud ei fod o bellach yn holliach a'r driniaeth yn llwyddiannus. Newyddion arbennig iawn ar drothwy'r Nadolig! A fydd dim rhaid i Tony deithio mor bell chwaith i dderbyn ei ôl-ofal gan y bydd yn medru ei gael yn Ysbyty Gwynedd. "Mi faswn i'n licio diolch i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth ac i bawb sydd wedi cysylltu i holi sut ydw i", meddai. Pob dymuniad da, Tony, a gobeithio y daw'r flwyddyn newydd ag iechyd gwell o lawer iti yn ei sgil.

**Talwrn y Beirdd**
Mae Talwrn y Beirdd yn dod i Rhiwlas am y tro cyntaf! Bydd dwy raglen yn cael eu recordio yn y Neuadd ar nos Fawrth, Chwefror 17, ac mae croeso cynnes i bawb ddod draw. Mae'n siŵr o fod yn noson hwyliog a difyr gan fod mwy nag un tîm sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y gorffennol ymhlith y rhai fydd yn cymryd rhan. Y pedwar tîm fydd yn ein diddanu ar y noson fydd Dwy Ochr i'r Bont v. Y Tir Mawr; Llewod Cochion v. Dros yr Aber. Bydd y recordiad yn dechrau am 7.30 o'r gloch.

## Dathlu canmlwyddiant y Neuadd Bentref

Bydd 2026 yn nodi can mlynedd union ers dechrau codi adeilad gwreiddiol y Neuadd Bentref yn Rhiwlas ac mae pwyllgor y Neuadd eisoes wedi dechrau ystyried sut i ddathlu'r achlysur. Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhyddhau yn ystod y misoedd nesaf.

Dynion ifanc Rhiwlas gafodd y syniad o gael man cyfarfod yn y pentref yn fuan ar ôl diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf (1914 - 1918). Llogwyd tŷ yn ymyl y Post gyda'r dynion ifanc yn treulio eu horiau hamdden yno yn chwarae biliards a gemau eraill.

Yn dilyn llwyddiant y fenter honno, datblygodd y syniad o fentro ymhellach drwy adeiladu safle pwrpasol, a ffurfiwyd pwyllgor er mwyn codi neuadd. Codwyd arian drwy roddion a benthyciadau di-log a chafwyd les ar ddarn o dir gan Stad y Faenol. Yn eu horiau hamdden aeth y dynion ifanc ati i glirio'r tir yn barod ar gyfer yr adeiladu, gwaith a gymerodd ddwy flynedd i'w gwblhau.



Neuadd y Pentref – ddoe (uchod) a heddiw (isod)



Cychwynnwyd yr adeiladu yn 1926 gyda Mr Robert R. Pritchard, oedd yn byw yn 8 Carreg y Gath, yn gyfrifol am y gwaith. Agorwyd y neuadd yn swyddogol gyda chyngerdd mawreddog nos Sadwrn, Medi 3ydd, 1927.

Ar y cychwyn tynnwyd allan gyfres o reolau megis:

Dim diod feddwol o fewn y muriau
Dim agor ar y Sul
Dim dawns i'w chynnal.

Daeth sawl tro ar fyd ers hynny! Mae'r adeilad presennol wedi ei adeiladu ar safle'r hen neuadd ac fe'i hagorwyd yn y flwyddyn 2000 ar ôl ennill grant gan y Loteri Genedlaethol.

Pan ddymchwelwyd yr hen adeilad cafwyd hyd i baced sigaréts 'Westminster Gold Tip' oddi tan y llawr. Ar y paced sigaréts roedd y geiriau canlynol:

*'This building was built by R.R. Pritchard, Joiner in the year 1926-27'.*

**Merched y Wawr**
Dwy awdures â chysylltiadau lleol oedd testun sgwrs Annes yng nghyfarfod Tachwedd. Nid rhai cyfoes chwaith ond rhai oedd yn ysgrifennu nofelau cyn i Kate Roberts, 'brenhines ein llên', ddod i sylw darllenwyr Cymru. Er i Winnie Parry gael ei geni yn y Trallwng, Powys, symudodd i fyw at ei thaid a'i nain yn Llanfair-is-gaer, ger Y Felinheli, yn blentyn ifanc ar ôl colli ei mam. Roedd ei thaid yn ddyn diwylliedig a'i nain yn barddoni o dan y ffugenw 'Gwenfron'. Bu Winnie yn golygu'r cylchgrawn *Cymru'r Plant* am sawl blwyddyn ond yn y cylchgrawn *Cymru* y gwelodd cyfres straeon 'Sioned' olau dydd am y tro cyntaf. Ar ôl eu cyhoeddi'n nofel ystyriwyd 'Sioned' yn un arloesol yn ei dydd, yn bennaf am ei bod hi wedi ei hysgrifennu yn iaith lafar Sir Gaernarfon ac am ei phortread hwyliog o Sioned a'i brawd Bob yn eu cynefin gwledig. Er iddi gael ei chanmol gan fwy nag un beirniad, a'i chymharu â Jane Austen gan un, mae sawl un yn teimlo na chafodd Winnie y sylw yr oedd yn ei haeddu. Un rheswm am hynny efallai yw nad oedd iaith lafar Arfon, er yn gymaint o awyr iach, yn apelio yr un fath drwy Gymru gyfan. Er hynny, mae ei gwaddol yn para gan i Kate Roberts sôn fwy nag unwaith am ddylanwad Winnie Parry ar ei gwaith hithau yn ei dro ac ymhen amser fe ailgyhoeddwyd 'Sioned' ddwywaith, yn 1988 a 2003.

Gwyneth Vaughan oedd testun arall y sgwrs, hithau hefyd wedi cyhoeddi nofelau tua'r un cyfnod â Winnie Parry. Roedd hi'n hanu o Dalsarnau ond mi ddaeth, yn ei thro, i weithio i siop Coed Helen House, Clwt y Bont. Ymhen amser priododd fab y siop, John Hughes Jones, meddyg teulu, ond bu farw'n ifanc a symudodd Gwyneth a'i phlant i Fangor wedyn.

Ein llywydd, Linda, oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Kate.

## Clwb Rhiwen

Prynhawn Mercher, Tachwedd 19, mwynhaodd yr aelodau brynhawn diddorol yn creu cardiau Nadolig o'u dewis eu hunain. Karen oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad.

Bydd y Clwb yn ail ymgynnull yn y neuadd ym mis Ionawr lle cawn brynhawn i ddal fyny ar ddigwyddiadau ar ôl Gŵyl y Nadolig.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn y Neuadd Bentref. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni. Hoffai aelodau'r Clwb ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Llais Ogwan.



## Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma fanylion gwasanaethau Rhagfyr a gynhelir yn y Neuadd am 10 o'r gloch y bore:

**Rhagfyr 14**: Gwyndaf Jones
**Rhagfyr 21**: Parch Aled Davies

Croeso cynnes iawn i bawb. Yn ôl y drefn arferol, ni chynhelir gwasanaethau yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror ond bydd y croeso yr un mor gynnes pan ddychwelwn ni ym mis Mawrth!

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!**
Gwaith diolch sydd gen i eto eleni am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn. Anodd credu bod blwyddyn arall wedi gwibio heibio mor sydyn! Gobeithio y cewch chi i gyd yn y pentref Nadolig gwerth chweil ac y daw'r Flwyddyn Newydd â bendithion lawer yn ei sgil. Daliwch ati i gysylltu ac anfon eich straeon ata'i. Y dedlein nesaf yw **dydd Sul, Rhagfyr 28**.





1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.




## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

**Y Goedwig ar lethrau Moelyci**
Wrth deithio o gylchfan Llys y Gwynt tuag at Bentir byddwch wedi sylwi fod rhan o'r goedwig wedi ei thorri. Er bod sawl rheswm i feirniadu coedwigoedd pîn, roedd coed y Foel yn rhoi cysgod a daeth y wiwer goch yn ôl yno gan drigo yn ei changhennau.

Fe ysgrifennodd Llew Boyer, Deiniolen gerdd pan gwympwyd y goedwig ar ochr Moel Rhiwen ac mae'r pennill canlynol yn addas iawn i'r hyn sydd wedi digwydd ar ochr Moelyci.

Llorio'r Foel, mor foel yw'r fan, - a hedodd
Yr adar i bobman;
Hen goedwig wnaed yn drigfan
Cyllid coed, ond collwyd cân.
Llew Boyer

**Ffenestri Adfent**
Mae traddodiad wedi ei sefydlu yn ardal Pentir o addurno ac arddangos ffenestri tai yn ystod mis Rhagfyr fel modd i ddathlu'r Nadolig. Bydd y ffenestr gyntaf yn cael ei arddangos ar 1af Rhagfyr ac un newydd pob nos i fyny i noswyl Nadolig. Beth am ddod heibio i edmygu gwaith creadigol yr ardalwyr?

**Canu Carolau**
Bydd y gymuned yn dod at ei gilydd i ganu carolau ar Sgwâr Pentir eto eleni ar nos Fercher, 17eg Rhagfyr.

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Sul y Cofio**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa yn yr Eglwys, gyda'r Cynghorydd Elwyn Jones o Gyngor Gwynedd yn gosod torch wrth droed yr allor, a gosododd James Frith dorch ar ran Eglwys St. Cedol. Gosodwyd groesau neu phabi gan aelodau o'r gynulleidfa er cof am y rhai a gollwyd yn y rhyfeloedd a hefyd dros heddwch yn ein byd.

**Clwb Crefftau**
Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus, yn cyfarfod bob prynhawn Gwener o'r mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch, bydd y Te Bach nesaf ar y 7 Ionawr. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Hamper Misol**
Rydym yn cynnal raffl o hamper misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd yr hamper mis Medi oedd David Emlyn yn roddedig gan Helen.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Gwasanaethau'r Ŵyl**
Mae'r gwasanaethau fel y ganlyn dros y Ŵyl

| | |
|---|---|
| 21.12.25 | 9.30yb – Cymun Bendigaid |
| 24.12.25 | 9.00yh – Cymun Bendigaid |
| 28.12.25 | 9.30yb – Carolau |

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Hoffwn fel eglwys ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion dalgylch y Llais. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

# Cyngor Cymuned Bethesda

**Cysgodfan bws Maes Bleddyn**
Mae'r cyngor wedi trefnu pryniant y gysgodfan erbyn mis Rhagfyr ac rydym wedi cadarnhau bod cwmni lleol yn ymgymryd â'r gwaith o'i osod. Newyddion a gaiff groeso mawr gobeithio gyda'r holl dywydd garw sydd wedi bod yn ddiweddar.

**Goleuadau Nadolig**
Rydym yn falch o weld yr addurniadau Nadolig wedi eu goleuo ddechrau'r mis. Mae'n bleser gallu ariannu hyn er mwyn harddu'r Stryd Fawr a rhoi pleser i drigolion y pentref.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

# CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda**

**Nos Lun, 12 Ionawr 2026**
**am 7.00yh**
**Dr. David Jenkins**
**Llongau'r Chwarelwyr**

**Wyneb yn wyneb:**
**Cofrestrwch efo**
**garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom:**
**Cofrestrwch efo**
**esme@ogwen.org**
**erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf**

**FFI AM Y CWRS**
Oedolion £10.00.
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol – £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212,
neu gydag arian parod ar y noson

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## GIGS NEUADD OGWEN

**Gig Nadolig**
**27.12.2025**
Tri Hŵr Doeth
Pys Melyn
Pasta Hull

**********

Un Pnawn Tywyll
**10.01. 26**
Vri ac Angharad Jenkins
**20.01.26**




CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

**Ionawr 13 a 27**

am 6.45yh.
Croeso i bawb

## Calendr Llais Ogwan 2026




Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2026 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r Calendr.

Cysylltwch gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk. Bydd y Calendr ar werth am £5 yn y siopau hyn:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Tesco, Bethesda
- Post Rachub
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol. Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 / post@llaisogwan.com

## Ffrindia' Newydd

**Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli ystyrlon?**

Oes gennych chi awr neu ddwy i'w sbario bob wythnos i wneud gwir wahaniaeth yn eich cymuned?

Mae prosiect cyfeillio *Ffrindia' Newydd* eisiau gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi unigolion dros 50 oed sydd angen cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:
beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
01286 672 626 | www.mantellgwynedd.com

Neu sganiwch y cod QR i gofrestru:



# Partneriaeth Ogwen

**Cydweithfa**
Am ymuno â'r gymuned fach sy'n defnyddio'r Gydweithfa yng Nghanolfan Cefnfaes? Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith modern, proffesiynol gyda chysylltiadau band eang cyflym i'ch helpu i wneud y gorau o'ch diwrnod gwaith. I archebu eich desg, ewch draw i'n gwefan: https://partneriaethogwen.simplybook.it/v2/

**Cynnig Lleol Beics Ogwen**
Os ydych chi'n mwynhau archwilio llwybrau lleol, beth am fanteisio ar gynnig arbennig sydd gan Beics Ogwen ar hyn o bryd sef 10% i ffwrdd llogi beic trydan i unrhyw un â chôd post yn Nyffryn Ogwen. Mae'r cynnig yn rhedeg tan 31ain o Ionawr, 2026. I wneud ymholiad cysylltwch â Morgan drwy e-bostio beics@ogwen.org.

**Hwb Ogwen - Nodyn Atgoffa**
Rydym yn dal i gael pobl sydd ddim yn deall ein bod ni wedi symud. Mae Hwb Ogwen ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ond bellach wedi'i leoli yn 27 Stryd Fawr, Bethesda. Mae croeso i chi alw mewn neu cysylltwch â ni drwy e-bost! Os bydd unrhyw newid i'r oriau arferol, byddwn yn rhoi gwybod drwy ddiweddaru ein tudalen Facebook.

**Y Gofod Gwneud**
Os ydych chi'n awyddus i greu rhywbeth yn y Gofod Gwneud ond ddim yn siŵr ble i ddechrau, cofiwch ein bod yn cynnal sesiynau agored bob nos Lun o 4yh tan 8yh. Mae croeso i aelodau o'r gymuned alw fewn am ddim gyda'n technegydd i ddysgu sut i ddefnyddio'r holl beiriannau a chael help gydag unrhyw brosiectau.

**Nadolig Llawen**
Hoffai holl staff Partneriaeth Ogwen ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda iawn i chi gyd. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i ni a hoffem ddiolch yn fawr iawn i chi am y gefnogaeth drwy gydol 2025! Mae 2026 yn argoeli i fod yn un cyffrous wrth i'r gwaith datblygu ar yr Hen Bost barhau. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y flwyddyn newydd!

# CHWARAEON

### BOWLIO EFO BYS A BAWD

## Noson cyflwyno gwobrau

Ar Dachwedd 21 cafwyd noson o gyflwyno tlysau i nifer o chwaraewyr llwyddiannus y Clwb Bowlio. Brynmor Jones, ysgrifennydd y Clwb Bowlio oedd yn mynd dros y gwahanol sgoriau a Richard Jones, Cadeirydd y Clwb yn cyflwyno'r tlysau i'r chwaraewyr llwyddiannus.

Meddai Richard, *"mae'n bleser cael bod yng nghwmni criw o chwaraewyr brwd ac eiddgar fel aelodau'r clwb bowlio."* Ychwanegodd, *"I fyny bo'r nod a phob lwc i dimau'r flwyddyn nesa'."*

Siôn Guto fu chwaraewr mwyaf cyson y clwb eleni eto ac mae nifer o chwaraewyr ifanc eraill yn cystadlu efo fo am lwyddiant. Dywedodd Siôn, *"Bowlio ydy fy mhrif ddiléit ac mae troi allan i chwarae ar noson braf o haf yn un o bleserau mawr fy mywyd."*

Roedd Callum Sorfleet o Fangor yn absennol pan dynnwyd y lluniau ond roedd Catrin Short a Delyth Williams o Dregarth yno a bu Catrin yn anffodus i beidio derbyn gwobr am ei hymdrechion mewn cynghrair anodd.


Ryan Short yn derbyn ei wobr gan Richard Jones


Maldwyn Pritchard fu'n llwyddiannus yn y parau


Sion Roberts ac un o'i dlysau


Denzil Jones pencampwr y tîm hŷn


Sion, unwaith yn rhagor yn derbyn tlws cynghrair arall

Ar y llaw arall, cwbl haeddiannol oedd gweld Denzil Jones yn derbyn cydnabyddiaeth am ei holl lwyddiant ac felly hefyd Mr Maldwyn Pritchard, am ysgubo'r bwrdd gyda'i sgiliau anghymharol yn y parau.

Roedd Maldwyn yn swil o dderbyn y clod am ei lwyddiant a dywedodd, "Dw'n ddiolchgar i bartneriaid fel John Baston, y dewin o Dalybont, ac i Wendy Thomas o Lanfairpwll am eu cymorth a'u cyngor gwerthfawr wrth gystadlu. Byddai ennill hebddyn nhw'n anodd."

Diolchodd yr aelodau unwaith eto i Brynmor am ei waith trefnus yn cadw golwg ar berfformiadau'r gwahanol dimau ac am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr inni ar berfformiad y clwb.

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

### Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Bendigedig oedd cerdded i mewn i neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen ar fore Sadwrn Eisteddfod Dyffryn Ogwen a gweld môr o siwmperi bach coch a siwmperi glas tywyll Abercaseg a Phen y bryn. Llongyfarchiadau enfawr i bob un a gystadlodd gan gynrychioli'r ddwy ysgol yn llwyddiannus. Yn sicr roedd sawl athro a theulu balch dros ben yn y neuadd yn ystod y dydd. Hyfryd hefyd oedd gweld blwyddyn 2 Abercaseg a blwyddyn 3 Pen y bryn yn cystadlu gyda'i gilydd am y tro cyntaf erioed gyda'u parti canu 'Now a Ned'. Yn ogystal roedd neuadd ginio Ysgol Dyffryn Ogwen yn orlawn o waith celf a chrefft arbennig plant y ddwy ysgol. Roedd hoel ymdrech a pheth amser i weld gan yr holl ymgeiswyr ac mae gwir angen i bob un ohonynt fod yn falch o'u hunain. Da iawn chi!

### Ffair Nadolig

Roedd Neuadd Ogwen yn fwrlwm ar noson Ffair Nadolig y Cyfeillion. Braf oedd gweld cymaint wedi dod i gefnogi a phawb wedi mwynhau ceisio ennill ar y tombola, wedi cael llenwi eu boliau gyda chŵn poeth, bisgedi, cacennau, te a choffi a chael cyfle i bori'r holl stondinau. Fel staff a disgyblion rydym yn dymuno diolch i'r cyfeillion am eu holl ymdrech yn trefnu a chynnal y ffair. Cofiwch fod pob tro croeso i rieni newydd ymuno a'r cyfeillion, dim ond i chi holi wrth ddrysau'r ysgolion a bydd yn staff yn siŵr o'ch rhoi ar ben ffordd.

### Sinema Abercaseg a Disco Nadoligaidd Penybryn

Roedd plant Abercaseg wedi gwirioni cael aros ar gyfer Noson Sinema Nadoligaidd sydd bellach yn draddodiad acw. Roedd pawb wedi lapio'n gyfforddus yn eu blancedi a sliperi ac wedi mwynhau pitsa, cŵn poeth, pop corn a diod. Rydym yn edrych ymlaen at y sinema nesaf yn barod!

Bu llawer o ddawnsio, canu a mwynhau bwyd blasus yn nigwyddiad Nadoligaidd Ysgol Penybryn. Roedd yn gyfle ardderchog i rieni fanteisio ar amser i wneud eu siopa Nadolig. Diolch mawr i Anti Donna ac Anti Wendy am baratoi swper blasus i ni, a diolch i'r amryddawn DJ MRS JONES am ein diddanu unwaith eto gyda'r Disco gorau erioed.



### Cit Newydd Sbon

Hoffem ddiolch o galon i **Gwmni Contractau Toeau M Hughes a'i Fab** am ein noddi gyda chit newydd sbon. Mae'r timau o bob oed eisoes wedi cael defnydd da ohonynt y tymor hwn. Braf fydd cario eich enw i bob gêm er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad. Diolch i chi!!

### Bocsys Nadolig T4U

Casglwyd nifer sylweddol o focsys esgidiau eto eleni i'w rhannu gyda phlant sy'n llai ffodus na ni. Diolch o galon i chi rieni am eich cefnogaeth barhaus i sicrhau fod plant eraill yn deffro gyda gwen ar ddiwrnod Nadolig wrth agor eu anrheg o Fethesda.





### Cyngerdd Nadolig

Roedd yn brynhawn ac yn noson hyfryd yn Eglwys Glanogwen ar ddydd Mawrth 16eg. Cafwyd gwasanaeth carolau gan griw Abercaseg yn y prynhawn wedi ei ddilyn gyda gwasanaeth carolau gan Pen y bryn gyda'r nos. Llongyfarchiadau enfawr i'r holl blant ar berfformiadau arbennig. Yn sicr, os nad oeddech yn hwyliau'r ŵyl cyn dod yna roeddech bendant yn gadael yn barod am y Nadolig. Hoffwn ddiolch I'r Parchedig Sara Roberts am ei chefnogaeth trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â'i pharodrwydd a'i chroeso cynnes i'r ddwy ysgol i ddefnyddio'r Eglwys ar gyfer cynnal ein gwasanaethau eleni.

### Ffilm Fer

Bu criw o blant Ysgol Penybryn yn ffilmio o amgylch yr ardal leol ar gyfer rhaglen ddogfen am hanes lleol. Bu'r disgyblion yn cyfweld haneswyr a thrigolion lleol, gan feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'u treftadaeth. Edrychwn ymlaen at weld y ffilm fer wedi'i chwblhau. Diolch i Bartneriaeth Ogwen am roi'r cyfle gwerthfawr hwn i'r criw.

### Diolch

Dymunai holl staff a phlant Ysgol Abercaseg a Phenybryn ddiolch o waelod calon i Mrs Elen Morgan, Mrs Cheryl Parry, a Miss Glesni Jones am eu holl waith caled yn ystod eu cyfnod yn gweithio yn yr ysgolion. Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'ch anwyldeb, eich ymroddiad a'ch angerdd tuag at y ddwy ysgol. Rydym yn dymuno'n dda i'r dair gan obeithio'n arw na fyddent yn cadw'n ddieithr.

### Wythnos Gwrth-fwlio

Fel rhan o Wythnos Gwrth-fwlio Ysgol Penybryn, daeth PC Tamzin atom i'n dysgu am fwlio ar-lein a sut i gadw'n ddiogel ar y we. Cafwyd trafodaethau pwysig a phwysleisiwyd pa mor ddefnyddiol yw'r we pan gaiff ei defnyddio'n gyfrifol ac yn ddiogel. Roedd y sesiwn yn cynnwys negeseuon hynod bwysig ac addysgiadol i'r disgyblion.

### Cystadleuaeth yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm pêl-rwyd a gynrychiolodd yr ysgol yng nghystadleuaeth yr Urdd ym Mangor. Chwaraeodd pawb yn wych, ac fe lwyddodd un o'r timau i gyrraedd y rownd gyn-derfynol, gan ennill pob gêm ar y ffordd!

Diolch hefyd i Ceri Ogwen am ddod i mewn i roi sesiwn hyfforddi i'r chwaraewyr — rydym yn gwerthfawrogi dy amser yn fawr.

### Parhad o weithgareddau 3PacA

Bu gweithgareddau'r Pythefnos 3PacA yn parhau i ambell un gydag ymweliad gan Sbarduno a holl blant Ysgol Abercaseg yn wyddonwyr am y diwrnod yn cynnal arbrofion a dysgu llwyth o bethau newydd. Roedd ymweliad hudolus gan Kariad, ymweliad addysgiadol a diddorol gan Catrin o dŵr Cymru a gweithdy Ysgol Goedwig arbennig ac unigryw gan Ms Anwen Roberts i blant y ddwy ysgol. Bu criw blwyddyn 2 a 3 yn lwcus dros ben eleni hefyd yn derbyn sesiynau dysgu reidio beic gyda Jack o Feics Antur, da iawn bawb am drio rhywbeth newydd, am ddyfalbarhau a gwella, gwella, gwella!



# AUR Y WLADFA, Y SINDICET AC EDWYN ROBERTS

Mae bywgraffiad manwl a diddorol Arthur Rowlands am Edwyn Roberts yn y *Llais* wedi rhoddi adnabyddiaeth i ni ddarllenwyr o gymeriad pwysig iawn yn hanes cynnar y Wladfa yn ogystal â'i gysylltiadau teuluol â Dyffryn Ogwen. Fel mae Arthur yn adrodd, bu farw Edwyn yn ddisymwth ar 17ain o Fedi, 1893 ar ymweliad â'i deulu ym Methesda ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys St Annes. Mae'n amlwg y byddai brawdgarwch teuluol yn rheswm digonol i gyfiawnhau ei ymweliad â'i deulu o ben arall y byd, ond tybed nad oedd gofynion eraill, efallai cyn bwysiced, angen eu trafod fel rhan o'i ymweliad?

Sefydlwyd The Welsh Patagonian Gold Fields Syndicate Limited yn 1892, yn fenter feiddgar i ddatblygu meysydd aur Tecka, Corcovado a Mica wrth droed yr Andes yn nhalaith Chubut yn yr Ariannin. Lloyd George, yn wleidydd barus yn chwilio am arian parod i hyrwyddo ei yrfa boliticaidd, oedd un o brif sylfaenwyr y cwmni yn Llundain. Ei gymar, yr un mor farus yn y fenter, oedd W.J. Parry, ef wrth gwrs yn un o'r dynion mwyaf dylanwadol ym mhentref Bethesda'r cyfnod. Gwyddai Parry am botensial y Wladfa mor gynnar ag Ebrill1886 pan dderbyniodd lythyr gan Michael D. Jones yn ei hysbysu y – 'Cafwyd o'r diwedd hyd i wlad ogoneddus yn Patagonia...Mae aur hefyd wedi ei ddarganfod'.

Ym mis Mai 1892 derbyniodd Parry lythyr arall gan Michael D. Jones yn ei hysbysu o werth arbennig y cloddfeydd ac yn ei holi a ddymunai fod yn rhan o'r fenter – 'a deimlet ti awydd i ymuno â ni yn yr ysgogiad...Yn siŵr i ti yr wyf yn sôn am beth gwerth ei ystyried. Gadewch gael gair beth a feddyliwch am hyn, neu a yw eich dwylaw yn rhy lawn o waith'. Yn y llythyr, mae hefyd yn ei hysbysu bod Edwyn Roberts ar ymweliad â'i deulu ym Methesda ac yn debyg o alw i'w weld.

Y llythyr hwn, gyda chopi tebyg i Lloyd George bur debyg, oedd y sbardun i sefydlu'r syndicat yn Llundain ym mis Tachwedd gyda'r nod o godi cyfalaf o £10,000 i ddatblygu'r fenter. Tasg Lloyd George oedd dwyn perswâd ar ei gymdeithion politicaidd a'i gyfeillion Cymreig yn Llundain i gefnogi'r fenter yn ariannol, tra swyddogaeth Parry oedd sicrhau cefnogaeth ariannol yng Ngwynedd. Ar derfyn y flwyddyn yr oedd dyfodol y syndicat yn y fantol pan wrthododd buddsoddwyr o dramor gefnogi'r fenter. Fferyllydd cefnog o Fethesda, T.J. Hughes, ddaeth i'r adwy drwy brynu 1,100 o gyfranddaliadau, sef cant yn fwy na buddsoddiad Lloyd George, a llawer mwy na'r £250 a brynwyd gan Parry.

Yn y cyfamser, ac yn ddiarwybod i Parry, mynegwyd pryderon ynghylch diffyg trefn yn y meysydd aur ac ynghylch gonestrwydd Capten Richards, y peiriannydd a oedd â'r dasg o ddatblygu'r cloddfeydd. Nid gonestrwydd Richards yn unig oedd yn peryglu dyfodol y syndicat, ond hefyd naïfrwydd aelodau'r bwrdd rheoli yn Llundain a oedd heb ofalu ymlaen llaw fod Richards wedi cofrestru hawliau'r syndicat i gloddio gyda llywodraeth yr Ariannin. Yr oedd yn rhaid wrth ymateb brys i geisio sefydlogi'r sefyllfa. Cafwyd trafodaethau ym Methesda a Llundain ac mae'n amlwg fod Edwyn Roberts yn rhan o'r trafodaethau hyn. I gadarnhau'r sefyllfa sigledig, penderfynwyd y dylid danfon Parry i ymweld â'r cloddfeydd aur, ac yn ei eiriau ef – '*to have Capten Richards taken up for breach of trust in the matter of his money,... to see to their business there, and to put their business matters straight there*'.

Trefnwyd y byddai Parry y teithio i'r Ariannin yng nghwmni Edwyn Roberts a Georg Williams, arbenigwr mwynau, ac y byddai'r tri yn teithio o Buenos Aires ar draws y paith mewn trol a cheffyl, i gyrraedd gweithfeydd aur yr Andes wedi pedwar mis o deithio. Cynllun oedd yn amlwg yn ben llanw ynfydrwydd ac yn adrodd cyfrolau am benderfyniadau cwbl afreal y syndicat. Gwallgofrwydd llwyr oedd trefnu ymgyrch o'r fath. Nid llencyn cyhyrog mo Parry ond gŵr hanner cant oed gyda dwylo meddal a heb arfer byw fel *gaucho*!



Rhestrwyd yr holl offer a oedd i'w pwrcasu ar gyfer y daith -- celfi mesur tir, celfi padellu aur, celfi fel rhawiau, ceibiau a morthwylion, gynnau, a phowdr a chetris i'w tanio, powdwr du a gelatine i'w ffrwydro, plancedi a phabell i'w diddosi, cyfrwyau ar gyfer marchogaeth ac, yn bwysicach na'r cyfan oll, '*one good glass to detect gold*' – y cyfan i'w prynu am £300. Yna cafwyd amcangyfrif gan Parry o gostau'r holl daith mewn rhestr daclus.

*Hire of waggon and horses for 4 months @ £10 per month - £40*
*Passage out and out - £100*
*G. Williams wages say 8 months @ £18 - £144*
*Money required to take out to provide necessities for 4 months and to pay the necessary Government fees to secure concessions - £260*
*Contingencies - £25*
*Total - £569*

Yn ddisymwth, ar 17 Medi 1893, bu farw Edwyn Roberts ym Methesda gan roddi clo terfynol ar ynfydrwydd y daith oedd i'w chychwyn ar ddiwedd y mis. Ond nid cyn bod trefniadau brys wedi eu gwneud i Parry hwylio ei hunan i'r Ariannin ar Hydref 11eg, 1893. Ond hanes arall sydd i'r daith honno, a gellir darllen am anturiaethau Parry yn y Wladfa ar wefan Hanes Dyffryn Ogwen, dyddiedig Mai 29ain, 2018.




# YSGOL BODFEURIG

Mae wedi bod yn fis prysur iawn i fyny ym Modfeurig gyda llawer o ddigwyddiadau ac ymweliadau.

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Rydym yn falch iawn o blant yr ysgol fu'n brysur yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar y llwyfan ac yn y cystadlaethau celf a chrefft. Llongyfarchiadau mawr i'r criw fu'n fuddugol mewn amrywiaeth o gystadlaethau celf a chrefft roedd y gwaith werth ei weld.

**Poburdd**
Roeddem hefyd yn falch iawn o Fern yn cystadlu yn rownd rhanbarthol Poburdd lle roedd angen iddi goginio cacen i ddathlu. Roedd y gacen yn edrych yn fendigedig – da iawn ti!

**Ymweliad Smwddis Swig**
Y tymor yma mae dosbarth Ogwen yn edrych ar y thema Gourmet Byd Eang. Roedd yn addas iawn felly fod Tomos o gwmni Swig wedi dod acw i ddysgu blwyddyn 5 a 6 am ei fusnes ac am sut i greu smwddi. Yn anffodus i'r plant roedd yn rhaid gweithio yn galed i gael eu smwddi wrth orfod pedlo beic oedd yn troi'r blendar oedd yn ei dro yn creu'r smwddi! Diolch Tomos am sesiwn ddiddorol llawn hwyl!



**Ymweliad yr heddlu**
Diolch i PC Tamzin a PCSO Eurwen am ymweld a dosbarth Ogwen i sôn am beryglon cario cyllell. Roedd pawb wedi dysgu llawer am y gyfraith ynglŷn â cario cyllell cyn cael ychydig o hwyl yn gwisgo dillad heddlu a creu keyrings gyda'u olion bysedd arnynt.




**Bocsys Esgidiau T4U**
Mae creu bocs esgidiau o anrhegion ar gyfer plant llai ffodus na ni bellach yn draddodiad ymysg llawer o deuluoedd yn yr ysgol. Diolch i bawb fu mor hael eto eleni gan helpu wneud Nadolig llawer o blantos bach yn un hapus.

**Plant Mewn Angen**
Cafwyd llawer o hwyl yn dathlu diwrnod Plant Mewn Angen gyda diwrnod hwyliog o wisgo pajamas. Diolch i bawb gyfrannodd – llwyddwyd i godi dros £100 tuag at yr achos.





STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Daeth tymor Nadolig unwaith eto a phawb wedi hen roi addurno eu tai. Ers talwm rydw i n cofio ei bod yn ddiwrnod mawr pan oeddem ni yn 'trimio' a rhoi y goeden 'Dolig yn ei lle, un go iawn wrth gwrs. I fyny y byddant wedyn tan Ionawr 6ed sef nos Ystwyll. Mae llawer iawn mwy ohonynt bellach, yn cael eu rhoi i fyny ynghynt, ond yn diflannu yn sydyn wedi nos calan.

## Rhai geiriau ac ymadroddion

**straffîg/styffaglio.** Trafferth ydy 'straffîg' – "Mae o mewn rhyw staffîg byth a hefyd." "Roedd hi'n stryffaglio i gario'r bag trwm."
**rêl stalwyn sir.** Dyn 'garw am y merchaid' ydy hwn, a byddai merched yn rhybuddio ei gilydd rhag un o'r fath – "Gwatsia di dy hun efo hwn'na. Mae o rêl stalwyn sir." Daeth y dywediad carwriaethol o fyd amaeth. Byddai gwas ffarm yn tywysu march o safon o gwmpas ffermydd y sir i wasanaethu cesig. Yr ymadrodd am fynd â march o gwmpas fel hyn oedd 'canlyn march'.
**gorfadd.** Dyma ddwedwn ni am 'gorwedd' – "Dw i am fynd o orfadd ŵan." Hefyd, dyma un o orchmynion ffermwr wrth drin ci defaid – "Gorfadd!"
**ynda.** Mae'n debyg mai o 'hwde'/'hwda' y daw'r gair hwn, ac mae o'n golygu 'cymer hwn' ('cyma hwn').
**metlin.** Cerrig wedi eu torri i'w defnyddio at wneud ffordd neu lein reilffordd, neu i drwsio ffordd. Roedd chwarel fetlin ym Methesda ar lan Afon Ffrydlas ar ochr y ffordd rhwng Pant Glas a Groeslon Gerlan. Mae tŷ wedi ei godi ar y safle ers sawl blwyddyn.
**joni-prica-moni.** Defnyddir hwn i ddisgrifio rhywun anwadal – "Does 'na 'm dal be' neith o nesa'. Mae o rêl joni-prica-moni."
**fel tŷ Jeroboam.** Brenin ar dalaith yn Israel oedd Jeroboam, ac mae ei hanes yn yr Hen Destament yn rhyfela byth a hefyd dros 20 mlynedd efo Rehoboam, brenin Iddewig arall. Felly, cyfeirio at ddryswch ac anhrefn ydy cymharu sefyllfa efo tŷ Jeroboam – "Does 'na'm trefn o gwbl yn y lle 'ma. Mae hi fel tŷ Jeroboam 'ma!"
**rowndyn nhw.** 'O'u cwmpas' ydy ystyr hwn – "Wyddost ti'n hen papurau 'na? Mi rois i linyn rowndyn nhw rhag iddyn nhw fynd ar chwal."
**fflamio.** Gair am ddweud y drefn wrth rywun – "O'dd y fam yn fflamio'r hogyn am fod yn ddrwg."
**pig.** Bod yn ddig neu wylltio ydy hwn – "A'th o'n big pan welodd o grafiad ar ochor ei gar o."
**dwrdio.** Gair arall am fflamio – "Mi glywis i'r athro'n dwrdio un o'r plant am fod yn ddig'wilydd."
**gormod o heyrn yn tân.** Yn rhy brysur efo gormod o bethau ymlaen – "Fedra i ddim gneud y joban 'na erbyn wsnos nesa. Mae gin i ormod o heyrn yn tân."
**yr hen fachgan.** Dyn oedrannus – "Mi ddoth rhyw hen fachgan heibio pan o'n i'n sefyll wrth y giât, ond roedd o'n ddiarth i mi."
**celc.** Cynilion ariannol ydy hwn– "Mae o wedi en dipyn o gelc erbyn hyn." Roedd ystyr arall iddo gan y chwarelwyr. 'Celc' oedd pres a oedd yn cael ei gadw o'r neilltu ar y slei gan rai chwarelwyr ar ddiwedd mis – arian na fyddai ei wraig yn dod i wybod amdano.
**bys yn ei geg.** Disgrifiad o rywun di-amcan a di-gyfeiriad – ddim yn gwybod beth i'w wneud – "Roedd o â'i fys yn ei geg yn trio meddwl be' i 'neud nesa."
**cic dan bwrdd.** Ystyr hyn ydy dros hawliau ac ôl dioddef am gyfnod. Hynny ydy, penderfynu 'rhoi troed i lawr' a gwneud rhywbeth ynghylch y mater.
**gwneud ati.** Smalio, tynnu coes a thwyllo diniwed ydy hyn – "Gneud ati oedd hi pan ddwedodd hi ei bod hi wedi ennill miliwn ar y loteri."
**dim obodeia.** Dim syniad mae hwn yn ei olygu – "Sgin i 'm obodeia sut mae hwn yn gweithio.
**colli ei chlychau.** Ystyr hwn ydy colli arnoch chi'ch hun, hynny ydy ymddwyn yn hurt bost. Mae'n debyg bod y dywediad yn cyfeirio at gloch yr eglwys ac efallai gloch yr ysgol erstalwm, a bod y clychau'n cynrychioli amser a threfn. Felly, os oedd rhywun wedi 'colli ei glychau', roedd o neu hi wedi colli pob synnwyr o amser a threfn.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Llais Ogwan.
Cofiwch gysylltu Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk




SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus



ELUSEN OGWEN

Os... ydych chi'n aelod o grŵp yn Nhal-y-Bont, Llandygái, Bethesda, Tregarth, Rhiwlas, Mynydd Llandygái neu'r cyffiniau
ac hoffech chi gael grant o hyd at £3,000 ar gyfer prosiect

Yna... sganiwch y cod QR i fynd i'n gwefan i weld
- a yw eich prosiect yn gymwys
- a sut i gyflwyno cais

www.elusenogwen.cymru / elusenogwen@gmail.com

# YSGOL LLANLLECHID

**Pêl-droed Urdd**
Cafodd ein timau pêl-droed Blwyddyn 3 a 4 amser arbennig yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar, gan ddangos chwarae brwdfrydig a gwaith tîm rhagorol ym mhob gêm - o'r chwiban gyntaf i'r olaf. Rydym yn falch o bob un ohonoch!

**Sesiynau Pêl-droed yr Urdd**
Mae plant ieuengaf yr ysgol wedi bod yn mwynhau cyfres o sesiynau pêl-droed dan arweiniad yr Urdd. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu sgiliau newydd, datblygu hyder ac, yn bwysicaf oll, cael hwyl wrth gadw'n heini.

Dan arweiniad hyfforddwyr profiadol yr Urdd, bu'r plant yn cymryd rhan mewn ystod o gemau bach, ymarferion cyfeillgar a heriau hwyliog. Roedd yr hyfforddwyr yn canmol egni a chyfranogiad y plant, gan ddweud eu bod "wedi dangos awch i ddysgu a mwynhau'r gêm."

Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i'r Urdd am ddarparu'r cyfleon hyn ac am eu cefnogaeth barhaus i'r plant a'r gymuned leol.

**Llwyddiannau Disglair yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Cafwyd penwythnos llawn balchder a chyffro yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni, wrth i'r disgyblion lwyfannu perfformiadau arbennig a dwyn canmoliaeth y beirniaid mewn nifer o gystadlaethau. O ganu unigol i gôr, o adrodd i berfformiadau offerynnol, roedd y safon yn hynod o uchel a'r ymdrech yn amlwg i bawb a fu'n gwylio.

Yn bendant rhaid canmol y plant eu hunain, a berfformiodd gyda hyder, creadigrwydd ac egni heintus. Roedd eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u hangerdd dros yr eisteddfod yn amlwg i bawb. Gallent fod yn hynod falch o'u cyflawniadau.

Diolch mawr i'r rhieni am sicrhau bod y plant yn gallu mynychu, cefnogi ymarferion, a darparu'r gefnogaeth sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth.

Diolch i'n staff ymroddedig, sydd wedi bod yn gweithio'n ddiflino dros yr wythnosau diwethaf i hyfforddi'r plant, eu hannog a'u paratoi ar gyfer y llwyfan.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran – rydych wedi gwneud Ysgol Llanllechid yn falch unwaith eto.

**Plant Mewn Angen**
Bu i'r ysgol lwyddo i gasglu £282.13 ar gyfer apêl flynyddol Plant Mewn Angen. Trefnwyd cyfres o weithgareddau gan ddisgyblion a staff yr ysgol. Ar y diwrnod fe gafodd y disgyblion wisgo dillad eu hunain ac ymwneud a gweithgareddau hwyliog.

**Teams4U**
Mae disgyblion, staff a rhieni Ysgol Llanllechid wedi dod ynghyd unwaith eto eleni i gefnogi Apêl Bocs Nadolig Teams4U, gan gasglu anrhegion i blant sy'n byw mewn cymunedau llai ffodus ar draws Dwyrain Ewrop. Bydd yr holl focsys yn cyn cael eu cludo i blant yn Rwmania, Moldofa a Georgia. Diolch yn fawr iawn i chwi am eich haelioni. Hefyd, hoffem ddiolch i Glwb Gwau Rachub a fu'n brysur yn creu blancedi cynnes i'w hanfon at yr apêl.

**Ffair 'Dolig**
Roedd awyrgylch gynnes a Nadoligaidd o fewn yr ysgol wrth i ddisgyblion a'r gymuned leol fwynhau'r Ffair Dolig flynyddol. Roedd llawer o gyffro o amgylch ymweliad arbennig gan Siôn Corn, a oedd yn croesawu plant i'w groto arbennig.

Cawsom ein diddanu gan berfformiadau gan Fand Pres Porthaethwy. Roedd pob math o stondinau yn gwerthu pob math o grefftau a nwyddau lleol, rhywbeth at ddant pawb. Diolch i'r holl stondinwyr ar ein cefnogi.

Cododd y digwyddiad eleni swm o £ 1,000 tuag at gronfa Cyfeillion yr Ysgol. Diolch yn fawr iawn am eu cefnogaeth ac am eu holl waith caled.

**Pêl-rwyd Urdd**
Mae ein tîm pêl-rwyd merched Blwyddyn 5 a 6 wedi profi'n dîm arbennig iawn yn y gystadleuaeth yn ddiweddar. Diolch i'w hymdrech gampus a'u perfformiadau cadarn, llwyddodd y tîm i gyrraedd rownd yr 8 olaf – camp wych i'w dathlu!

**Ysbyty Chwarel Llanberis**
Mae Blwyddyn 1 wedi bod ar daith addysgol i'r hen ysbyty chwarel yn Llanberis. Cafodd y plant brynhawn diddorol yn dysgu am hanes yr ysbyty chwarel yn ystod Oes Victoria. Cafwyd y cyfle i astudio a chymharu offer ysbyty heddiw a ddoe yn ystod y cyfnod hyn.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Daeth Rhydian Roberts a chriw o weithwyr o Awdurdod Parc Eryri i'r Ysgol at flynyddoedd 3 a 4 i'w dysgu am goed. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael mynd i ardal goedwig yr Ysgol. Yno, roeddent yn dysgu sut i adnabod ac enwi'r coed gan ganolbwyntio ar nodweddion eu dail. Gweithgaredd a ddaeth a pleser a mwynhad i'r holl ddisgyblion oedd creu tai adar eu hunain. Bu'r dosbarthiadau yn llawn cyffro a sŵn wrth iddynt fynd ati gyda'i morthwylion er mwyn creu tai adar.

Diolch yn fawr iawn i'r staff a ddaeth draw gyda'r holl adnoddau roeddem eu hangen i adeiladu y tai adar.





## William Mathias

Wythnos diwethaf cafodd blwyddyn 5 y cyfle i chwarae offerynnau llinynnol dan arweiniad cerddorion talentog William Mathias. Yn ogystal â chlywed y cerddorion yn perfformio gyda'i gilydd, cawsant y cyfle i ddysgu am y ffidil, y fiola a'r sielo a rhoi cynnig ar chwarae can ar yr offerynnau! Cerddorion y dyfodol?

**Gwasanaeth Tân**
Mae Blwyddyn 1 wedi bod yn gwneud gwaith am bobl sydd yn helpu. Daeth y frigâd dan i ymweld â'r ysgol. Mae plant Blwyddyn 1 wedi cael llawer o hwyl ac yn diolch yn fawr i staff orsaf dan Fangor am ddod draw i weld ni

**Llongyfarchiadau i Ms Zoe**
Llongyfarchiadau i Ms Zoe a'i theulu ar enedigaeth Mabon Elis. Rydym yn edrych ymlaen i chi ddod draw i'n gweld yn fuan.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Brian Edwards, Maes Bleddyn, a ddathlodd ei benblwydd yn 80 mlwydd oed ar 4 Rhagfyr, gyda Marian a'r teulu yn dymuno penblwydd hapus iawn iddo gyda llawer o gariad.

**Dymuno Nadolig Llawen**
Nid yw Jean Hughes Glanrafon yn anfon cardiau Nadolig flwyddyn yma ond mae hi yn dymuno Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda i phawb.

Hoffai Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu, cymdogion a ffrindiau.

**Pen-blwydd Hapus**
Gobeithio fod Meurig Roberts, Ffordd Llanllechid wedi mwynhau yr holl ddathlu diweddar. Dathlodd Meurig ei ben blwydd yn 70 mlwydd oed yn ystod y mis. Dymuniadau gorau iddo.

**Cydymdeimlo**
Daeth newydd trist ar ddiwedd mis Tachwedd am farwolaeth Gareth Williams, 2 Llwyn Bedw yntau yn 61 mlwydd oed. Roedd Gareth yn ymgymerwr lleol gan ddilyn ôl traed ei dad. Roedd yn bysgotwr dyheig gyda gwybodaeth helaeth o afonydd a llynnoedd yr ardal. Anfonwn ein cydymdeimlad at Gwenan a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth disymwth.

**Yn Gwella**
Da gweld Mrs Helen Williams yn ôl yn troedio'r llwybrau wedi iddi syrthio a brifo ar Llwyn Bleddyn. Da iawn yw ei gweld yn dal i weithio'n galed o fewn y gymdogaeth.

**Diolch o'r Ysgol**
Hoffai y Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ddiolch yn fawr i bawb ddaeth i gefnogi y Ffair Nadolig yn yr Ysgol nos Iau Tachwedd 27ain. Roedd hi'n braf gweld y neuadd yn llawn rhieni, disgyblion a ffrindiau'r ysgol. Fe hoffwn ni fel Pwyllgor ddiolch i'r trefnwyr, stondinwyr a staff yr ysgol am drefnu noson llwyddiannus, ac wrth gwrs i pawb am ddod. Fe fydd yr arian gafwyd ei godi yn mynd tuag at cael adnoddau i'r ysgol a talu at gostau profiadau amrywiol i'r disgyblion.

**Llongyfarchiadau**
I Llio Medi (Henbarc gynt) a Carwyn Price, Penrhyndeudraeth ar enedigaeth eu mab Gwydion Emlyn. Hefyd llongyfarchiadau i Emlyn ac Eleri, nain a taid Llan.

## Capel Carmel

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd ddim yn dda y dyddiau yma, yn Ysbyty Eryri ac yng Nghartref Plas Ogwen. Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai sy'n ddi-hwyl yn eu cartrefi eu hunain ac yn methu â dod i'r gwasanaethau. Dymunwn y gorau iddyn nhw dros y Nadolig.

**Te Bach**
Daeth criw da i'r Te Bach ym mis Tachwedd. Rhoddwyd cyfraniad o £150 o elw'r Te Bach at waith cangen y gogledd orllewin o Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor sy'n gwneud gwaith rhagorol yng Nghymru. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur**
Mae'r plant a'r ieuenctid yn brysur wrth eu gwaith ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig.



**Dyma lun o Beti, Poppy a Holly yn ymarfer eu carolau gyda'u clychau yn eu dwylo. "Mae'r clychau bach yn canu draw ym Methlehem".**

Trefn Gwasanaethau am 5:00 yr hwyr

Rhagfyr 21ain – Parchedig R. O. Jones
Rhagfyr 28ain – Oedfa Nadolig D/P
Ionawr 4ydd – Parchedig John Pritchard - cymun
Ionawr 11eg – Oedfa
Ionawr 18fed – Parchedig Dafydd Jôb

Croeso cynnes i bawb a Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau a chyfeillion yr achos.

## Clwb Hanes Rachub, Llanllechid a Caellwyngrydd

Croesawyd yr awdures a'r ymgyrchwraig Angharad Tomos i'n plith i drafod 'Straeon y Ddeiseb', sef Deiseb Heddwch y Merched 1923.

Ym 1923, yn dilyn cyfnod dychrynllyd y Rhyfel Byd Cyntaf, ysbrydolwyd nifer o ferched Cymru i gychwyn ymgyrch nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen dros heddwch byd.

Llofnododd bron i 400,000 o ferched drwy Gymru gyfan, ddeiseb yn galw am i America ymuno, ac arwain Cynghrair y Cenhedloedd. Trefnwyd y ddeiseb mewn modd gofalus a thrwyadl fel bod cymaint a phosib o ferched Cymru dros 18 oed yn cael cyfle i'w harwyddo. Roedd ymgyrch Deiseb Heddwch y Merched 1923 yn ymdrech wir ryfeddol a oedd yn cynnwys bron pob cartref yng Nghymru, gydag ymgyrchwyr heddwch yn mynd o ddrws i ddrws, gyda chymorth trefnwyr sir a chymuned. Aethpwyd â'r ddeiseb gyfan mewn cist dderw fawr draw i'r Unol Daleithiau i'w chyflwyno i'r Arlywydd Coolidge, ond yn anffodus, ni chafwyd ymateb cadarnhaol i'r ymgyrch. Cadwyd y cyfan yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington tan yn eithaf diweddar. Yn 2014, drwy hap a damwain, darganfuwyd clawr dogfen oedd yn ymwneud â'r ddeiseb, a dyna pryd ddaeth yr hanes yn ôl i olau dydd!


Mae nifer fawr o bobl yn lleol, wedi darganfod enwau neiniau a hen neiniau ar y rhestr – rhai yn haws i'w darganfod nag eraill, Wedi'r cyfan, roedd pob teulu yng Nghymru wedi cael ei effeithio gan yn Rhyfel Byd Cyntaf, a chri'r gwragedd, chwiorydd a mamau gaed yma, yn ceisio cysylltu â merched America a'r byd heb fod yn dreisgar na gwleidyddol o dan y gri, 'HEDD NID CLEDD'.

Mae'r hanes ar gael yn y llyfr: Yr Apêl / The Appeal Gol. Mererid Hopwood a Jenny Mathers, Gwasg y Lolfa, 2023, cyfrol ddwyieithog ISBN: 9781800993822

Diolch yn fawr iawn Angharad am ddod â'r hanes i'n sylw!

Ni fydd cyfarfod o'r Clwb Hanes ym Mis Rhagfyr, ond byddwn yn ôl yn y Clwb Criced ar Ionawr 28ain, pan fydd Helen Holland yn sgwrsio am fusnes glo'r teulu Griffiths o Rachub.

# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Dod at y cwlwm i'w ddatgymalu (5)
5 Dilledyn ola'r dydd i aelod hynaf y teulu efallai (5 Ar Draws) a (7 I Lawr) (5,4)
8 Enwi'r ferch ifanc (5)
9 Y ceffyl mwyaf cyflym - - - - - enillodd y ras (1,4)
10 Beth fydd y tywydd yfory tybed ? Dyma geir yn ateb gan y cyflwynydd teledu (9)
11 Car efo injan bwerus fel y Golf VW (3)
12 Dim yn ildio na throi'n ôl (11)
15 Gwaith drewllyd y ffermwr yw ' - - - - - - - - - - - ei gaeau' (5,4,2)
19 Os yn y cywair cywir mae'r pluog yma yn rhoi oes o ganu i'r cyfnos (3)
20 Pentref ar gyrion Aberystwyth (9)
22 Ledio y ffordd gywir i ymdrin â rhywbeth (5)
23 I fod yn hollol amlwg, thâl hi ddim i gelu'r gwir (5)
24 Siop trin gwallt (5)
25 Ap Iwan, y Cymro tanbaid ag ysgol yn ei enw yn Abergele (5)

**I LAWR**

1 Gall gyhwfan i bob Cymro a Chymraes gwerth ei halen (5,3)
2 Blodyn y gwanwyn (6)
3 Yr hyn a wna'r hunanol (3,5)
4 Mae'n barod i'w lenwi (6)
5 O'r eglwys fel arfer ceir un cywir yn nechrau cloch i'w chanu'n araf (4)
6 Deuawd enwog y brodyr Eurig ac Ynyr, Haleliwia ! (6)
7 Gweler 5 Ar Draws (4)
13 Amgueddfa Wlân Cymru (8)
14 Pryd maethlon a photas gwerinol o lysiau a chig (8)
16 Cychwyn y rhan fwyaf o lythyrau (6)
17 Gweithred bwysicaf bodoli, a dal un yn hir wrth nofio (6)
18 Un sy'n ymaflyd codwm (6)
20 Hanner y papur hwn efallai (4)
21 Crac neu hollt (4)

Atebion erbyn **2ail Ionawr, 2026** fan bellaf *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



**ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2025**

AR DRAWS 7 Boda, 8 Ole, 9 Amau, 10 Oriawr, 11 Syrcas, 12 Eli, 13 Purwyn, 14 Oedran, 16 Merswy, 19 Anwesu, 21 Sal, 22 Sgript, 24 Andwyo, 25 Wrol, 26 Yli, 27 Afon

I LAWR 1 Llodrau, 2 Paradwys, 3 Sofren, 4 Ceisio, 5 Cawr, 6 Llanasa, 15 Dywediad, 17 Esgyrn, 18 Ystwyth, 19 Aladin, 20 Swynol, 23 Iolo

Gan y canlynol y cafwyd atebion cywir: Medi Michael, Bangor; Gill King, Mynydd Llandygai; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Doris Shaw, Margaret Williams, Rita Bullock, Ann Smith, Bethesda; Judith Hughes, Llangoed; Stella Dafis, M. A. Jones, Rachub; John Ffrancon Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; Elsi Prytherch, Waen Wen; Wendy Eccles, Llanllechid; Dilys Parry, Rhiwlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rosemary Williams, Tregarth; Huw a Gwenno, Gerlan; Elizabeth John, Crymych

Mae gwobr ola'r flwyddyn gyda'r llongyfarchiadau a'r clod yn mynd i Judith Hughes, Wenallt, Llangoed, Ynys Môn LL58 8NN

Diolch o galon i'r rhai anfonodd gyfarchion Nadolig, a'r dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chwithau.


MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION

A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO

TEIARS A BATRIS

GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723

E-bost: ffrydlas@btconnect.com